



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ hyfforddiant gwaith ieuencid a chymunedol;
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd;
- ▲ dysgu troseddwy.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Llywodraeth Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon epost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

<b>Rhagair</b>	<b>1</b>
<b>1 Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?	2
Beth mae'r canllaw hwn yn ei wneud?	2
<b>2 Hunanarfarnu effeithiol</b>	<b>3</b>
Y broses hunanarfarnu	3
Gweithgareddau nodweddiadol mewn rhaglen hunanarfarnu ysgol	4
Nodweddion allweddol hunanarfarnu	5
<b>3 Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant</b>	<b>6</b>
Nodweddion allweddol cynlluniau gwella ysgolion	6
<b>4 Hunanarfarnu a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion</b>	<b>7</b>
<b>5 Hunanarfarnu a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin</b>	<b>8</b>
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?	8
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	17
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	24
<b>6 Hunanarfarnu ac arolygu</b>	<b>33</b>
<b>7 Pecynnau offer i gynorthwyo hunanarfarnu</b>	<b>34</b>
Pecynnau offer hunanarfarnu Estyn	34
Pecynnau cymorth hunanarfarnu eraill	35
Pecynnau cymorth hunanarfarnu o wledydd eraill	37

## Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r argraffiad cyntaf hwn o'r canllaw hunanarfarnu ar gyfer ysgolion cynradd. Credaf fod hunanarfarnu yn cael ei ymgorffori'n gynyddol ar draws addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ac mae'n cyfrannu at wella ansawdd a chodi cyrhaeddiad a chyflawniad ar gyfer disgyblion.

Mae disgwyliad cynyddol y dylai fod prosesau hunanarfarnu a gwella effeithiol gan ysgolion. Er bod llawer o ddisgyblion eisoes yn cyflawni'n dda yng Nghymru, a bod eu cyraeddiadau'n cymharu'n dda â'u cymheiriaid mewn gwledydd eraill, mae angen gwella ysgolion mwy fyth eto. Yn benodol, mae gwahaniaethau mewn deilliannau mewn ysgolion a rhwng ysgolion. Mae datblygu diwylliant o hunanarfarnu yn hanfodol er mwyn nodi a lleihau amrywiadau mewn perfformiad ysgolion.

Fel proses broffesiynol fyfyrion, mae hunanarfarnu yn galluogi ysgolion i ddod i adnabod eu hunain yn well, nodi'u hagenda ar gyfer gwella a hyrwyddo arloesedd ac arfer sy'n arwain y sector. Yn hanfodol, pan fydd y broses hunanarfarnu yn canolbwyntio ar effaith a deilliannau, mae hunanarfarnu yn arwain at welliannau ym mhrofiadau addysgol a deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru rolau cyflenwol i yrru gwelliannau mewn hunanarfarnu yn eu blaen. Mae Estyn hefyd wedi hyrwyddo datblygu hunanarfarnu ar draws pob sector am flynyddoedd lawer. Yn ein Hadroddiadau Blynyddol, cydnabyddwn fod systemau hunanarfarnu da a systemau hunanarfarnu sy'n gwella gan lawer o ysgolion. Mae ein cylch newydd o arolygiadau o Fedi 2010 yn rhoi lle canolog i hunanarfarnu mewn gwaith ysgolion ac arolygu. Mae hunanarfarnu wrth graidd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion hefyd, sef y fframwaith polisi sydd am geisio trawsnewid safonau a darpariaeth addysgol dros y degawd nesaf. Gyda'i gilydd, mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Fframwaith Arolygu Cyffredin (FfAC) newydd Estyn yn adlewyrchu'r cyd-destun datblygol y mae ysgolion yn gweithredu ynddo. Mae'r fframweithiau hyn yn gadarn wrth galon agenda polisiau gwella Cymru, yn darparu her a chymorth i ysgolion ac yn helpu i adeiladu cynhwysedd, hyder a chymhwysedd.

Rwy'n hynod falch o gymeradwyo'r canllaw hwn wrth barhau â'n hymrwymiad ar y cyd i sicrhau gwelliant parhaus a rhagoriaeth i bawb.

*Ann Keane*

**Ann Keane**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## 1 Cyflwyniad

Prif bwrpas hunanarfarnu yw gwella deilliannau ar gyfer disgyblion. Pan fydd hunanarfarnu yn rhan sefydledig o'r cylch cynllunio gwelliant, mae'n gyfrwng rheoli allweddol ar gyfer datblygu ar bob lefel. Fel proses flynyddol, mae hunanarfarnu'n llywio cynlluniau strategol a chynlluniau gwella, gan helpu ysgolion i ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

Nid oes unrhyw un fformwla na dull unigol o hunanarfarnu. Mae ysgolion yn sefydliadau cymhleth a gallant fynd ar drywydd cyflawni rhagoriaeth yn yr agweddau amrywiol ar eu gwaith mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Mae ysgolion eisoes yn defnyddio fframweithiau hunanarfarnu gwahanol, gan gynnwys y rhai a gynhyrchwyd gan awdurdodau lleol, a phecynnau offer masnachol. Mae llawer o ysgolion yn seilio'u prosesau hunanarfarnu ar FfAC Estyn.

Bydd ysgolion ar fannau cychwyn gwahanol a byddant yn ymgymryd â thaith tuag at welliant mewn cyfeiriadau gwahanol ac ar gyflymder gwahanol, yn unol ag anghenion eu disgyblion. Yn hanfodol, pa ddull neu gyfeiriad bynnag a ddilynir, ysgolion sy'n bennaf gyfrifol am welliant parhaus a chyflawni gwasanaeth gwell.

### Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn ysgolion i gefnogi a gwella safonau a phrofiadau dysgu plant a phobl ifanc. Gall y canllaw fod yn ddefnyddiol hefyd i randdeiliaid sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, gan gynnwys rhieni/gofalwyr, awdurdodau lleol, asiantaethau, grwpiau cymunedol ac eraill.

### Beth mae'r canllaw hwn yn ei wneud?

Diben y canllaw hwn yw cefnogi gweithgareddau hunanarfarnu a chynlluniau gwella ysgolion. Er bod y canllaw yn un cynhwysfawr, ni fwriedir iddo fod yn ddiffiniol nac yn ddi-hysbydd. Nid yw'r canllaw yn cwmpasu'r holl bethau y mae ysgolion yn eu gwneud fel rhan o'u proses hunanarfarnu. Fodd bynnag, mae'n canolbwyntio ar agweddau ar hunanarfarnu y dangosodd arolygu ac ymchwil eu bod yn arbennig o bwysig.

Mae'r canllaw yn dechrau drwy nodi'r agweddau pwysig hynny ar hunanarfarnu, gan ystyried y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Diben Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion.

Mae'r canllaw wedyn yn darparu gwybodaeth am arfarnu gwaith ysgolion yng nghyd-destun FfAC Estyn. Yn yr adran hon, mae cwestiynau ar gyfer ysgolion i'w helpu i arfarnu ansawdd eu gwaith.

Mae'r canllaw yn cloi gyda rhestr o offer hunanarfarnu amrywiol y gall ysgolion ddymuno'u defnyddio i gefnogi'u craffu a ffocws ar feysydd i'w datblygu.

## 2 Hunanarfarnu effeithiol

### Y broses hunanarfarnu


Proses yw hunanarfarnu, nid digwyddiad. Hwn yw'r cam cyntaf, hanfodol mewn proses gylchol o sicrhau newid a gwelliant. Fe'i seilir ar fyfyrion proffesiynol, her a chymorth ymhlith ymarferwyr. Mae hunanarfarnu effeithiol yn golygu gwneud penderfyniadau amrywiol iawn ynglŷn â champau sy'n arwain at fuddion amlwg ar gyfer pob disgybl. Yn anad dim, mae hunanarfarnu yn golygu ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth.

Mae tri chwestiwn yn ganolog i hunanarfarnu:

- **Pa mor dda ydym yn gwneud?**
- **Sut ydym yn gwybod?**
- **Sut gallwn ni wella pethau ymhellach?**

Er bod pob agwedd ar ddarpariaeth ysgol yn ffocws dilys ar gyfer hunanarfarnu, ar ddeilliannau ddylai'r pwyslais fod bob amser – ar arfarniad o effaith pob agwedd ar ddarpariaeth ar safonau a lles disgyblion. Dylai'r broses hunanarfarnu fod yn un **barhaus** ac yn rhan reolaidd o fywyd gweithio'r ysgol. Dylid seilio hunanarfarnu ar ystod eang o wybodaeth am gryfderau a meysydd i'w gwella a gesglir trwy gydol y flwyddyn, er y bydd yn briodol yn aml cynnal rhai agweddau ar hunanarfarnu ar gyfnodau hwy o lawer, ac nid bob blwyddyn o angenrheidrwydd. Dylai ysgolion ddefnyddio gwybodaeth o hunanarfarnu i gynllunio ar gyfer gwelliannau, ymgymryd â gwaith gwella, a sicrhau proses gylchol reolaidd o fonitro ac arfarnu sy'n arwain at welliant pellach.

Mae'r diagram isod yn dangos natur gylchol hunanarfarnu effeithiol:




Camgymeriad yw gweld hunanarfarnu fel digwyddiad un tro yn unig. Dylai ysgolion ymgymryd â chylch rheolaidd o weithgareddau hunanarfarnu. Gall y cylch hwn gynnwys gweithgareddau gwahanol, ar amserau gwahanol, ar gyfer ysgolion unigol.

Mae'n debygol o gynnwys y gweithgareddau rheolaidd canlynol:

- dadansoddi data o brofion neu asesiadau ar lefel disgybl unigol, pwnc, grŵp disgyblion, grŵp oed neu lefel ysgol gyfan;
- arsylwadau o wersi gan gymheiriaid a rheolwyr priodol;
- arfarnu ansawdd gwaith ysgrifenedig a gwaith ymarferol disgyblion;
- arfarnu ansawdd cynllunio'r cwricwlwm ac asesu, cofnodi ac adrodd;
- safoni asesiadau athrawon;
- cymryd samplau o farnau disgyblion, staff, rhieni/gofalwyr neu randdeiliaid eraill;
- adolygiadau gan reolwyr a sefydliadau allanol;
- archwilio arfer yn erbyn polisiau a gweithdrefnau fel y rhai ar gyfer diogelu neu iechyd a diogelwch;
- meincnodi yn erbyn arfer orau neu arfer wahanol o ysgolion eraill; ac
- adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau datblygu.

### Gweithgareddau nodweddiadol mewn rhaglen hunanarfarnu ysgol



Nid yw hunanarfarnu yn ymarferiad y gellir ei gynnal gan y pennaeth neu grŵp gorchwyl yn gweithio ar ei ben ei hun. Dim ond pan fydd **pob aelod o staff** yn cyfrannu at y broses, yn ymwybodol o'r canfyddiadau ac yn gweithredu ar sail y canfyddiadau hynny y gall hunanarfarnu fod yn ddylanwadol.

Dylai unrhyw raglen hunanarfarnu gynnwys **arsylwadau o wersi**, yn ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol at ddibenion rheoli perfformiad, gan fod yr arsylwadau hyn yn darparu tystiolaeth bwysig o gyflawniad a chynnydd disgyblion mewn dysgu, ac o ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Gallai rhaglen arsylwi gwersi gynnwys:

- arsylwi pob aelod o staff bob blwyddyn gan uwch reolwyr;
- arsylwi staff gan uwch reolwyr fel rhan o arfarnu testun neu thema;
- arsylwadau gan ymwelwyr allanol fel ymgynghorwyr, ymgynghorwyr awdurdod lleol neu athrawon o ysgolion eraill;
- arsylwadau gan gymheiriaid priodol; ac
- arsylwadau cymheiriaid ar draws adrannau fel rhan o thema neu i ledaenu arfer dda.

Dros gyfnod, dylai'r gwaith hwn arwain at ddarparu proffil o farnau ar wersi, y gellir eu defnyddio i lunio barn ar safonau ac addysgu ac amlygu meysydd i'w gwella.

Mae **llais y dysgwr** yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth o gyflawniad, agweddau a lles disgyblion. Mae hefyd yn debygol o fod yn ddefnyddiol wrth arfarnu ansawdd addysgu ac asesu. Dylai disgyblion, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, gael cyfleoedd i fod yn rhan o broses hunanarfarnu ysgol. Gall yr ymglymiad hwn fod drwy arolygon, grwpiau ffocws neu gyngor yr ysgol, gyda'r ysgol yn defnyddio cyfweiliadau a holiaduron i gael safbwyntiau'r disgyblion. Yn hanfodol, bydd angen i ysgolion sicrhau bod disgyblion yn gallu cyfrannu at wneud penderfyniadau a chynllunio gwelliant.

Dylai hunanarfarnu hefyd ystyried safbwyntiau ystod eang o **randdeiliaid**, gan gynnwys athrawon, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, cyflogwyr a'r gymuned a wasanaethir gan yr ysgol. Pan fydd ysgolion yn cynnwys rhanddeiliaid, mae'r staff yn elwa o gael dealltwriaeth well o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella, yn ogystal â pherchnogaeth a rennir, cydweithredu a phartneriaeth effeithiol.

### **Nodweddion allweddol hunanarfarnu**

Mae hunanarfarnu effeithiol:

- yn agored ac yn onest;
- yn rhoi'r prif ffocws ar gyflawniadau a phrofiadau disgyblion;
- yn broses barhaus ac nid yn 'gipolwg' un tro yn unig;
- wedi'i ymgorffori mewn cynlluniau strategol ac yn defnyddio gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn rheolaidd;
- yn cynnwys pob aelod o staff ar bob lefel wrth asesu deilliannau a pherfformiad;
- yn gofyn am safbwyntiau disgyblion yn systematig ac yn ymgynghori â



- rhanddeiliaid eraill, fel partneriaid a chyflogwyr, pan fo'n briodol;
- yn ceisio llunio barnau yng ngoleuni data perfformiad y gellir ei fesur a nodi tueddiadau dros gyfnod;
- yn arwain at gynlluniau gwella sy'n cael eu monitro yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddo; ac
- yn arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd ar gyfer disgyblion.

Dylai'r barnau a lunnir yn ystod hunanarfarniad fod yn rhai:

- **sicr** – wedi'u seilio ar dystiolaeth ddigon cadarn, dibynadwy a hygyrch;
- **uniongyrchol** – wedi'u seilio ar arsylwi uniongyrchol;
- **dibynadwy** – wedi'u seilio ar feini prawf cyffredin, a ddeallir yn dda;
- **dilys** – yn adlewyrchu'n gywir yr hyn a gyflawnir ac a ddarperir;
- **rhydd o ragfarn** – yn edrych ar bob agwedd yn wrthrychol; a
- **chorfforaethol** – yn adlewyrchu safbwynt cyfunol y staff a rhanddeiliaid eraill.

### 3 Hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

Nid yw hunanarfarnu yn ddiben ynddo'i hun. Dylai ysgolion ddefnyddio gwybodaeth o hunanarfarnu i gynllunio ar gyfer gwelliannau a sicrhau proses gyloch reolaidd o fonitro, arfarnu a chynllunio gwelliant.

Yn ogystal â darparu adborth uniongyrchol i staff a rheolwyr, bydd gwybodaeth o raglen o weithgareddau hunanarfarnu yn cyfrannu at yr **adroddiad hunanarfarnu a ddiweddarir yn flynyddol** yn seiliedig ar y FfAC. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle i nodi cryfderau, dathlu a rhannu arfer dda yn ogystal ag amlygu meysydd i'w gwella. Dylai'r wybodaeth a gesglir o'r rhaglen o weithgareddau hunanarfarnu ysgol fwydo i'r cynlluniau ar gyfer gwella. Dylai fod cyfatebiaeth agos felly rhwng deilliannau'r adroddiad a blaenoriaethau yn y **cynllun gwella ysgol**.

Mae'n briodol y dylai rhai agweddau ar ansawdd a safonau gael eu harfarnu'n amlach nag eraill. Mae angen i fframwaith cynllunio gwelliant yr ysgol fod yn hyblyg ac yn ymatebol i faterion sydd, neu a ddylai fod, yn peri pryder ar hyn o bryd.

#### Nodweddion allweddol cynlluniau gwella ysgolion

Mae cynlluniau gwella effeithiol:

- wedi'u seilio ar ddeilliannau hunanarfarnu;
- yn cyfrannu at brosesau hunanarfarnu ac at gynllunio gweithredu pellach;
- wedi'u cynnwys mewn dogfennau gweithio sy'n helpu cyflawni'r newidiadau angenrheidiol;
- yn cynnwys blaenoriaethau, targedau a graddfeydd amser a nodir yn glir, ac yn nodi camau y bydd angen eu cymryd i fynd i'r afael â materion;
- yn nodi unigolion sy'n gyfrifol am weithredoedd, graddfeydd amser a'r adnoddau a'r cymorth y bydd eu hangen;
- yn pennu deilliannau clir, yn ymwneud â gwelliant mewn safonau ac ansawdd, y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn; ac
- yn rhoi manylion sut, pa bryd a chan bwy y bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i arfarnu.

## 4 Hunanarfarnu a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion

Nod y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw gwella profiadau addysgol a chyfleoedd bywyd i bob plentyn a pherson ifanc. Cynlluniwyd y Fframwaith i ddod â'r rhaglenni gweithredu presennol sy'n ceisio gwella ysgolion at ei gilydd.

Bydd prosesau hunanarfarnu cryf ac effeithiol yn helpu ysgolion i gyflawni gwelliant parhaol a gwelliant go iawn, ac yn cefnogi cyflawni'r Diben Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion, a nodir gan y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion fel diben i:

- alluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu'u potensial yn llawn drwy gaffael medrau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau. Mae hyn yn cynnwys medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion sy'n weithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol, ac yn ddisgyblion gydol oes;
- hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth, yn arbennig drwy ddatblygu lles disgyblion a rhoi gwedd bersonol ar eu dysgu;
- sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol cryf mewn ysgolion lle gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu'u gwybodaeth broffesiynol am ddysgu ac addysgu;
- cynnig i blant a phobl ifanc gwricwlwm sy'n eu cynnwys ac yn eu cymell i ddysgu ac i wireddu eu potensial;
- darparu cymuned ddysgu ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â bywyd ysgol, gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn y canol, ac yn cynnwys llywodraethwyr, athrawon, staff arall yn yr ysgol, ac oedolion sy'n hyfforddi i weithio mewn ysgolion;
- bod yn chwaraewr allweddol gydag ysgolion eraill a darparwyr gwasanaethau partner wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant a phobl ifanc er mwyn gwella'u lles; a
- darparu neu hwyluso addysg fel bod ysgolion yn cyfrannu at ddiwallu anghenion y gymuned ac yn cynnwys y gymuned fel partneriaid er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn ysgolion bro.

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cydnabod bod angen i ysgolion weithio ar ddatblygu eu dulliau gweithredu eu hunain a rhai cyd-ddibynnol o ran sicrhau effeithiolrwydd. Trwy nodi arfer dda a gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio, bydd ysgolion mewn lle gwell i ddod o hyd i atebion newydd i hen broblemau a rhai sy'n dod i'r amlwg. Bydd cydweithredu ag ysgolion a phartneriaid eraill yn helpu nodi a chyflawni strategaethau gwella a dysgu a rennir.

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cynghori ysgolion i seilio'u hadroddiad hunanarfarnu a ddiweddarir yn flynyddol ar FfAC Estyn.

## 5 Hunanarfarnu a'r Fframwaith Arolygu Cyffredin

Mae'r FfAC yn ymdrin yn gynhwysfawr â'r holl faterion allweddol y dylai ysgolion eu hasesu wrth gynnal eu hunanarfarniad. Dylai adroddiad hunanarfarnu blynyddol ysgol fod yn seiliedig ar y FfAC. Mae'r adran hon o'r canllaw yn darparu cwestiynau ar bob un o'r dangosyddion ansawdd ac agweddau ar y FfAC.

Mae'r trefniadau arolygu newydd yn cydnabod bod ysgolion wedi dod ffordd bell o ran datblygu'u medrau a'u profiad mewn hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Oherwydd y cynnydd hwn y mae Estyn yn mabwysiadu dull mwy cymesur o arolygu o Fedi 2010. Y man cychwyn ar gyfer pob arolygiad yw arfarniad yr ysgol o'i pherfformiad ei hun. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar waith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd samplau o dystiolaeth i brofi arfarniad yr ysgol ei hun o'i gwaith.

Ysgrifennu yr adrannau canlynol o safbwynt ysgolion ein hunain a defnyddir 'ni' i gyfeirio at staff ysgolion.

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

#### Sut ydym yn arfarnu safonau? (FfAC 1.1)

Mae hunanarfarnu cadarn yn edrych ar safonau yn gyntaf. Mae monitro safonau yn helpu arfarnu effaith ansawdd darpariaeth ac ansawdd arweinyddiaeth.

Mae hunanarfarnu effeithiol yn llunio barnau yng ngoleuni data perfformiad y gellir ei fesur. Mae asesu'r data hwn yn drwyadl yn galluogi ysgolion i nodi nodweddion da yn ogystal â meysydd i'w gwella. Er y gall y dadansoddiadau o ddata perfformiad godi rhai cwestiynau, daw'r atebion a'r daith tuag at welliant o fewn yr ysgol ei hun.

Mae'r arweiniad hwn yn cyfeirio at asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Bydd yr arolygiaeth yn darparu arweiniad pellach ar asesu deilliannau'r Cyfnod Sylfaen cyn tymor yr haf 2012.

#### Pa mor dda yw canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyr tebyg a chyrrhaeddiad blaenorol? (FfAC 1.1.1)

Wrth arfarnu perfformiad, mae angen i ni ddefnyddio ystod o ddadansoddiadau gwahanol ac ni ddylem ganolbwyntio ar un dangosydd penodol nac un math o ddadansoddiad.

Y man cychwyn ar gyfer arfarnu perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 ddylai fod Set Ddata Graidd Cymru Gyfan. Dylai ysgolion hefyd ystyried data cryno yng Nghrynodebau Cymharol Ysgolion ar gyfer cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.

Mae'r setiau data hyn yn cynnwys ystod o ddadansoddiadau gwahanol. Dylem ddefnyddio llawer o'r rhain fel rhan o'n harfarniad parhaus o berfformiad. Fodd bynnag, fan lleiaf, dylem ystyried perfformiad ar y dangosydd pwnc craidd (DPC) ac

yn y pynciau craidd ar wahân sy'n dylanwadu ar y DPC. Dylem hefyd ystyried perfformiad yn y pynciau craidd ar lefel 3 yng nghyfnod allweddol 1 ac ar lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2. Fel ysgol cyfrwng Saesneg gyda disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, dylem ystyried perfformiad mewn Cymraeg fel ail iaith.

Dylid gwneud arfarniadau o berfformiad dros gyfnod, tair blynedd fel arfer, yn hytrach na chanolbwyntio ar berfformiad mewn un flwyddyn unigol. Dylem ystyried a yw perfformiad yn gwella, yn dirywio neu'n amrywio dros gyfnod.

Dylem ddefnyddio cymariaethau â chyfartaleddau cenedlaethol er mwyn nodi a yw cyfradd ein cynnydd yn well na'r gwelliant cenedlaethol, ac i nodi cryfderau cymharol neu feysydd i'w datblygu mewn tueddiadau mewn dangosyddion gwahanol.

Nid yw'n ddigon cymharu canlyniadau â chyfartaleddau cenedlaethol yn unig. Rhaid i ni arfarnu ein perfformiad trwy gymharu ag ysgolion sy'n wynebu heriau tebyg gan ddefnyddio:

- y chwartelau meincnod prydau ysgol am ddim (PYDd); ac
- ysgolion eraill yn eu teulu yn set ddata graidd Llywodraeth Cymru.

Dylem hefyd arfarnu'r cynnydd y mae ein disgyblion yn ei wneud o'r cyfnod allweddol blaenorol, gan ddefnyddio data gwerth ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod unrhyw ddata gwerth ychwanegol yn cael ei ddehongli yng ngoleuni perfformiad yn ôl dadansoddiadau eraill. Os oes gennym ffigurau gwerth ychwanegol cadarnhaol ond nid yw perfformiad yn cymharu'n dda yn gyffredinol ag ysgolion eraill yn ein teulu neu ar y chwartelau meincnod PYDd, yna efallai mai tangyrhaeddiad sylweddol mewn cyfnod allweddol blaenorol sy'n achosi hyn. Dylem ystyried hyn wrth arfarnu perfformiad.

Mewn ysgolion cynradd bach, gall grŵp blwyddyn bach achosi amrywiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn gan fod pob disgybl yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r garfan. Mae hyn yr un mor debygol o wella perfformiad â'i waethygu ac nid yw'n rheswm dros dangyrhaeddiad. Fodd bynnag, gellid disgwyl i ysgolion cynradd bach newid chwarteri meincnod PYDd yn amlach nag ysgolion eraill. Os yw'r ysgol yn y 4ydd chwarter flwyddyn ar ôl blwyddyn, byddai hyn yn ddiffyg pwysig yn yr ysgol, yn union fel y mae hi ar gyfer ysgolion mwy. Mae maint ysgol yn un o'r meini prawf wrth greu'r teuluoedd o ysgolion. Felly, mewn ysgolion bach, mae hefyd yn bwysig iawn i'r ysgol gymharu ei pherfformiad gydag ysgolion eraill yn ei theulu.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chanlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, darparwyw tebyg a chyrhaeddiad blaenorol**

- Ydyn ni'n gwneud gystal, neu hyd yn oed yn well, nag oeddem ni dair blynedd yn ôl?
- Ydyn ni'n gwneud gystal ag y gallwn neu a oes lle i wella?
- A yw ein perfformiad yn cymharu'n dda ag ysgolion eraill yn ein teulu? A oes ysgolion yn ein teulu lle mae perfformiad yn gyson well
- A yw ein perfformiad yn cymharu'n dda gydag ysgolion tebyg yn y grŵp meincnod PYDd dros y tair blynedd diwethaf?

- A yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd o un cyfnod allweddol i'r llall?
- Ym mha bynciau neu ddangosyddion perfformiad y mae disgyblion yn gwneud orau? Ym mha bynciau neu ddangosyddion perfformiad nad yw disgyblion yn gwneud gystal?
- A yw cyrhaeddiad yn cymharu â rhagfynegiadau yn nadansoddiad Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (YTF) neu ddadansoddiadau eraill?

### **Pa mor dda yw safonau grwpiau o ddisgyblion? (FfAC 1.1.2)**

Mae angen i ni ddadansoddi cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys bechgyn a merched, disgyblion â hawl i gael PYDd a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r rhestr lawn o grwpiau o ddisgyblion ag ADY wedi'i chynnwys yn Atodiad 6 y llawlyfr arweiniad arolygu. Dylem gynnwys y grwpiau hynny sy'n fwyaf perthnasol i amgylchiadau'r ysgol. Fodd bynnag, dylem bob amser gynnwys perfformiad disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, y disgyblion mwy abl a dawnus, a phan fydd yn berthnasol, plant y gofelir amdanynt (PGA) neu'r rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae tueddiadau cenedlaethol yn y gwahaniaeth mewn perfformiad bechgyn a merched yn amrywio o fewn pynciau gwahanol a dangosyddion eraill. Mae bwlch mewn perfformiad rhwng y rhywiau mewn ysgol ond yn un sylweddol os yw'n fwy neu'n llai na chyfartaleddau cenedlaethol yn y pwnc hwnnw neu'r dangosydd perfformiad. Dylem hefyd gymharu gwahaniaethau mewn perfformiad â gwahaniaethau mewn ysgolion eraill yn y teulu.

Dylem ystyried a yw cyrhaeddiad y disgyblion hynny sydd â hawl i gael PYDd gystal ag y dylai fod. Dylai'r dadansoddiad gynnwys cymharu perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael PYDd â'r rhai nad yw'r hawl honno ganddynt. Dylai hefyd gynnwys cymharu perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael PYDd yn ein hysgol â pherfformiad disgyblion felly ar draws Cymru gyfan. Dylem ymchwilio a yw perfformiad disgyblion PYDd yn well neu'n waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion PYDd, neu pan fydd y bwlch rhwng disgyblion PYDd a disgyblion nad ydynt yn cael PYDd yn fwy neu'n llai na'n genedlaethol.

Dylem ystyried a yw cyrhaeddiad disgyblion mwy abl yn ddigon da ar gyfer eu gallu drwy ystyried cyrhaeddiad ar y graddau uchaf. Dylai barnau am gyflawniad disgyblion mewn unedau arbennig, neu ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion y brif ffrwd, ystyried eu cyflawniadau mewn perthynas â chyflawni nodau dysgu cytûn.

Mae'n debygol, i'r mwyafrif o'r grwpiau a gynhwysir o dan ADY, mai dim ond nifer fach o ddisgyblion fydd mewn unrhyw grŵp blwyddyn. Dylem arfarnu'r cynnydd y mae'r disgyblion hyn yn ei wneud rhwng cyfnodau allweddol a chymharu hyn â'r garfan gyfan. Pan fydd modd, dylem hefyd gymharu â grwpiau tebyg yn lleol neu'n genedlaethol.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â safonau grwpiau o ddisgyblion**

- Pa mor dda y mae cyflawniad ein disgyblion PYDd yn cymharu â disgyblion nad ydynt yn cael PYDd yn yr ysgol?

- Sut mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng ein disgyblion PYDd a'n disgyblion nad ydynt yn cael PYDd yn cymharu â gwahaniaethau lleol neu genedlaethol?
- A yw'r bwlch rhwng cyflawniad bechgyn a merched yn fwy neu'n llai na thueddiadau cenedlaethol?
- A yw disgyblion mwy abl a dawnus yn cyflawni'u potensial? A yw'r disgyblion yn cyrraedd y graddau uwch a lefelau uwch y cwricwlwm cenedlaethol?
- A yw disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cyflawni nodau dysgu cytûn?
- Pa mor dda y mae grwpiau dysgwyr penodol eraill yn cyflawni? A ydynt yn gwneud gymaint o gynnydd rhwng cyfnodau allweddol â disgyblion eraill? A yw unrhyw grwpiau yn perfformio'n well na'r garfan gyfan? Pa mor dda y mae eu perfformiad yn cymharu â'r un grwpiau yn lleol neu'n genedlaethol?

### **Pa mor dda yw cyflawniad a chynnydd disgyblion mewn dysgu? (FfAC 1.1.3)**

Heblaw am ddefnyddio data, dylai arfarniad o gyflawniad a chynnydd disgyblion fod yn seiliedig ar arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau gyda disgyblion. Dylem arfarnu pa mor dda y mae disgyblion yn galw i gof ddysgu blaenorol, yn datblygu medrau meddwl, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd. Pan fo modd, dylem arfarnu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyrraedd mewn gwersi a barnu a yw'r rhain yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Dylai barnau am gyflawniad gydnabod cynnydd a datblygiad disgyblion o fan cychwyn penodol, mewn perthynas â'r cyd-destun y maent yn dysgu ynddo. Ar gyfer disgyblion ag ADY, bydd barnau am gyflawniad yn cael eu dylanwadu gan y wybodaeth am eu hanghenion a'u galluoedd unigol.

Dros gyfnod, dylem adeiladu proffil parhaus o farnau ar wersi sy'n cynnwys un ffynhonnell dystiolaeth ar safonau. (Ar yr un pryd dylem adeiladu proffil o ansawdd yr addysgu.)

Heblaw am arsylwadau o wersi, gallwn hefyd arfarnu safonau drwy graffu ar waith disgyblion a chynlluniau athrawon. Gall holiaduron ar gyfer disgyblion a rhieni/gofalwyr, a gwrando ar safbwyntiau disgyblion a rhieni/gofalwyr, ddarparu rhywfaint o wybodaeth hefyd.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chyflawniad a chynnydd disgyblion mewn dysgu**

- Pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni mewn gwersi?
- A yw disgyblion yn cofio dysgu blaenorol?
- A yw disgyblion yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd?
- A yw disgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau i sefyllfaoedd newydd?
- A yw disgyblion yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir yn eu cyfnod dysgu?

### **Pa mor dda yw medrau disgyblion? (FfAC 1.1.4)**

Wrth arfarnu medrau, mae angen i ni ganolbwyntio ar ba un a yw pob disgybl yn meddu ar y medrau mewn cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a

chyfathrebu (TGCh) y mae eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan, a pha mor dda y mae'r cwricwlwm ehangach ei hun yn datblygu medrau disgyblion. Yn gyffredinol, mae angen i ni roi'r pwyslais mwyaf ar fedrau llythrennedd, yn enwedig darllen ac ysgrifennu, gan mai'r rhain sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar wella cyfleoedd i fanteisio ar holl feysydd y cwricwlwm.

Mae angen i ni ystyried deilliannau o ganlyniadau asesiadau perthnasol, fel y rhai ar allu disgyblion i ddarllen, pan fyddant ar gael.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â medrau disgyblion**

- A yw pob disgybl, gan gynnwys y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, yn meddu ar y medrau mewn cyfathrebu, rhifedd a TGCh y mae eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan?
- A yw disgyblion yn datblygu medrau yn dda yn y cwricwlwm ehangach?
- A yw disgyblion yn cyflawni'n dda mewn asesiadau perthnasol eraill, fel yr asesiadau o'u gallu darllen?
- A yw disgyblion yn cymhwyso'u medrau heb gymorth?
- A yw disgyblion sy'n rhan o raglenni 'dal i fyny' yn cyflawni'n dda?

### **Pa mor dda yw medrau disgyblion yn yr iaith Gymraeg? (FfAC 1.1.5)**

Wrth arfarnu datblygiad disgyblion yn yr iaith Gymraeg, mae angen i ni ystyried cefndir a chyd-destun ieithyddol ein hysgol a'r ardal yr ydym yn ei gwasanaethu.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â medrau disgyblion yn yr iaith Gymraeg**

- A yw cyrhaeddiad disgyblion yn dda yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mewn Cymraeg neu Gymraeg fel ail iaith, fel bo'n gynnwys, o gymharu ag ysgolion tebyg a cyrhaeddiad blaenorol?
- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd mewn gwersi mewn Cymraeg a Chymraeg fel ail iaith?

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg:

- A yw disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol gydag ychydig o wybodaeth neu ddim gwybodaeth am y Gymraeg yn cyflawni'n dda?

Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg:

- A yw disgyblion yn gwneud cynnydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol y tu hwnt i'w gwersi Cymraeg, er enghraifft, mewn pynciau eraill, yn ystod cyfnodau cofrestru a gwasanaethau, ac mewn gweithgareddau allgyrsiol?

### **Sut ydym yn arfarnu lles? (FfAC 1.2)**

Mae lles meddyliol, corfforol ac emosiynol pobl ifanc yn rhag-amod hanfodol ar gyfer dysgu llwyddiannus. Yr agweddau yn y dangosydd ansawdd hwn yw agweddau

disgyblion at gadw'n iach a diogel, y graddau y mae disgyblion yn cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau, ac ansawdd hynny, ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau a medrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion.

I arfarnu lles, mae angen i ni:

- ystyried safbwyntiau disgyblion;
- ystyried y graddau y mae disgyblion yn cyfranogi mewn dysgu;
- barnu a yw disgyblion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phethau sy'n effeithio ar eu profiadau yn yr ysgol; ac
- ystyried a yw disgyblion yn meddu ar y medrau y mae eu hangen arnynt i wella'u dysgu eu hunain, i weithio gydag eraill ac i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith.

Mae angen i ni gael tystiolaeth am gyfranogiad mewn dysgu a'i fwynhau, yn ogystal ag ymddygiad ac agweddau, drwy arsylwi gwersi. Mae llawer o ffyrdd eraill o gael gwybod am safbwyntiau disgyblion, er enghraifft, drwy holiaduron a chyfweliadau gyda grwpiau ffocws a chynghor yr ysgol. Mae Estyn wedi cynhyrchu holiaduron ar gyfer disgyblion, y gall yr ysgol eu defnyddio'n rheolaidd i nodi tueddiadau a newidiadau mewn agwedd. Nid holiaduron Estyn yw'r unig rai sydd ar gael, a gellir defnyddio llawer un arall, yn enwedig os ydym am ganolbwyntio ar faterion penodol yn fanwl.

Gall arolygon rheolaidd o safbwyntiau disgyblion, yn ogystal â gwrando'n ofalus ar yr hyn sydd gan ddisgyblion i'w ddweud mewn cynghorau ysgol ac mewn sefyllfaoedd tebyg, ddarparu tystiolaeth dda ar gyfer arfarnu lles.

Mae holiaduron rhieni'n fwy tebygol o ddarparu tystiolaeth ar ddarpariaeth yn hytrach na deilliannau. Er hynny, gallant ddarparu safbwynt defnyddiol o hyd. Gall holiadur Estyn i rieni, er enghraifft, roi rhywfaint o wybodaeth am iechyd, diogelwch ac ymddygiad disgyblion, a pha mor dda y mae disgyblion yn hoffi'r ysgol.

Er y bydd rhywfaint o'r dystiolaeth ar gyfer y dangosydd ansawdd hwn yn dibynnu ar ganfyddiadau disgyblion ac arsylwadau o wersi, mae rhywfaint o ddata defnyddiol ar ddeilliannau hefyd. Mae hwn yn cynnwys cyfraddau presenoldeb a data'n gysylltiedig ag ymddygiad, fel gwaharddiadau neu gyfeiriadau at staff bugeiliol ac asiantaethau allanol.

### **Pa mor dda yw agweddau disgyblion at gadw'n iach a diogel? (FfAC 1.2.1)**

Wrth ystyried y graddau y mae disgyblion yn teimlo'n iach, mae angen i ni asesu a oes gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut gallant ddod yn iach, trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol y maent yn ymgymryd ag ef. Un ffynhonnell dystiolaeth ddefnyddiol yw niferoedd y disgyblion sy'n dewis yr opsiynau iach mewn cinio ysgol neu drwy eu pecynnau bwyd eu hunain. Ffynhonnell ddefnyddiol arall yw'r niferoedd sy'n ymgymryd â gweithgarwch corfforol, er enghraifft, y niferoedd sy'n ymgymryd ag o leiaf ddwy awr o weithgarwch corfforol bob wythnos.



Wrth arfarnu'r graddau y mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, gallwn edrych ar a yw disgyblion yn teimlo'n rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Bydd adolygiad systematig a strwythuredig o achosion o fwlio neu aflonyddu yn helpu darparu rhywfaint o dystiolaeth o'r graddau y mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag agweddau disgyblion at gadw'n iach**

- Pa mor dda y mae disgyblion yn deall sut gallant ddod yn iach, trwy'r hyn y maent yn ei fwyta a thrwy weithgarwch corfforol?
- I ba raddau y mae disgyblion yn dewis yr opsiynau iach mewn cinio ysgol neu drwy eu pecynnau bwyd eu hunain?
- Faint o ddisgyblion sy'n ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn rheolaidd, er enghraifft, am o leiaf ddwy awr bob wythnos?

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag agweddau disgyblion at gadw'n ddiogel**

- I ba raddau y mae disgyblion yn teimlo'n rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol?
- A oes unrhyw ddigwyddiadau o fwlio neu aflonyddu? A yw'r nifer yn cynyddu neu'n gostwng dros gyfnod?

### **Faint mae disgyblion yn cyfranogi mewn dysgu ac yn ei fwynhau? (FfAC 1.2.2)**

Wrth arfarnu cyfranogi mewn dysgu a'i fwynhau, mae angen i ni ystyried presenoldeb, ymddygiad ac agweddau, a'r graddau y mae disgyblion yn cael lleisio barn am yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut.

Wrth arfarnu presenoldeb, mae angen i ni ystyried y gyfradd bresenoldeb gyffredinol, gan nodi unrhyw amrywiadau rhwng grwpiau penodol o ddisgyblion. Dylem gymharu cyfraddau presenoldeb â ffigurau cenedlaethol a chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg yn benodol. Gallwn gael y data hwn trwy Set Ddata Graidd Cymru Gyfan. Gallai ymddangos yn briodol gweld sut mae ysgol yn perfformio mewn perthynas â normau cenedlaethol, ond y meincnod yn erbyn ysgolion tebyg ddylai arwain unrhyw arfarniadau fel arfer.

Dylem gymharu cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yr ysgol gyda ffigurau cenedlaethol a chyfraddau ysgolion tebyg. Gallem hefyd ystyried y graddau y mae disgyblion sydd â hanes o waharddiadau yn eu hysgol/UCD gyfredol neu flaenorol, yn dangos ymddygiad ac agweddau da at ddysgu.

Wrth arfarnu ymddygiad ac agweddau, dylem ystyried y graddau y mae disgyblion yn dangos ymddygiad da mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Dylai arsylwi ymddygiad disgyblion fod yn nodwedd gyffredin yn y rhaglen o arsylwadau gwersi. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud yn siwr bod arsylwyr yn chwilio am yr un pethau, a bod ganddynt ddisgwyliadau cyffredin a chytûn ar gyfer ymddygiad. Dylem arsylwi a yw disgyblion yn ystyriol ac yn gwrtais, ac yn uniaethu â'i gilydd ac oedolion yn dda. Yn ychwanegol, dylem edrych ar agweddau disgyblion at ddysgu, yn enwedig eu diddordeb yn eu gwaith, eu gallu i gynnal canolbwyntio a pha mor dda y maent yn ymgymryd â thasgau.

Wrth arfarnu cyfraniad y disgyblion at beth a sut maent yn dysgu, dylem ystyried:

- a yw barnau disgyblion ynghylch beth a sut maent yn dysgu yn cael eu cymryd o ddifrif;
- sut mae disgyblion yn trafod y testunau i'w cwmpasu ac yn helpu cynllunio cynlluniau gwaith a gweithgareddau; ac
- a yw disgyblion yn gwneud dewisiadau ynghylch beth a sut maent yn dysgu.

Wrth edrych ar yr agwedd hon yn fanwl, mae'n ddefnyddiol defnyddio Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â phresenoldeb disgyblion**

- Pa mor dda y mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn cymharu â'r ffigur cenedlaethol ac ysgolion tebyg (gan ddefnyddio ffigurau meincnod LIC)?
- A oes amrywiadau sylweddol rhwng grwpiau penodol o ddisgyblion?

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag ymddygiad ac agweddau disgyblion**

- A yw disgyblion yn dangos ymddygiad da mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol?
- A yw disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu?
- A yw cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn cymharu'n dda â ffigurau cenedlaethol a ffigurau ysgolion tebyg?
- A yw'r duedd yn nifer y cyfeiriadau am ymddygiad gwael a gwaith gwael yn gwella?
- A yw disgyblion sydd â hanes o gael eu gwahardd yn dangos ymddygiad ac agweddau da at ddysgu?

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chyfraniad disgyblion at yr hyn y maent yn ei ddysgu a sut**

- I ba raddau y mae disgyblion yn gwneud dewisiadau ynghylch beth a sut maent yn dysgu?
- A yw barnau disgyblion ynghylch beth a sut maent yn dysgu yn cael eu cymryd o ddifrif?
- A yw disgyblion yn trafod y testunau i'w haddysgu ac yn helpu cynllunio cynlluniau gwaith a gweithgareddau?

### **Beth yw graddau ymglymiad cymunedol disgyblion a'u rhan mewn gwneud penderfyniadau? (FfAC 1.2.3)**

Dylem arfarnu'r graddau y mae disgyblion, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn ymgymryd â chyfrifoldebau, ac yn cymryd rhan yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Dylem ystyried cyfranogiad disgyblion mewn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys effeithiolrwydd cyngor yr ysgol. Dylem farnu'r graddau y mae cyngor yr ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, yn rhoi cyfrifoldeb iddynt ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n

ddefnyddiol gwirio effaith cyngor yr ysgol ac i weld a oes cofnod o newid sylweddol o ganlyniad i waith cyngor yr ysgol. Er bod gan ddisgyblion ar gynghorau ysgol ran fel arfer mewn hyrwyddo materion amgylcheddol a ffyrdd iachach o fyw, nid ydynt yn ymwneud gymaint â gweithgareddau'n ymwneud â chynhwysiant, fel ymgyrchwyr gwrth-fwlio a systemau rheoli bwlio. Nid ydynt yn ymwneud gymaint ychwaith â dylanwadu ar ddatblygu polisi, er enghraifft, drwy helpu i baratoi'r cynllun gwella ysgol a phenodi aelodau staff newydd.

Yn ychwanegol at gyngor yr ysgol, dylem ystyried hefyd y graddau y mae pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eu bywyd yn yr ysgol. Gall fod ystod o fecanweithiau sy'n galluogi i hyn ddigwydd, a'r dasg allweddol yw gweld a yw pob un o'r disgyblion wir yn teimlo y gallant gyfrannu.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau**

- I ba raddau y mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel dramâu ysgol, cerddoriaeth a chwaraeon?
- Pa mor aml y mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned y tu allan i'r ysgol, neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau codi arian i elusennau?
- A yw llawer o ddisgyblion yn gwirfoddoli i helpu gyda digwyddiadau ysgol?
- I ba raddau y mae disgyblion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am ddysgu ac addysgu, a pha effaith y mae hyn yn ei chael?
- A yw pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai o grwpiau gwahanol, yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am eu bywyd yn yr ysgol, er enghraifft, drwy hyrwyddo materion amgylcheddol a ffyrdd iachach o fyw?
- A yw disgyblion yn cymryd rhan mewn dylanwadu ar ddatblygu polisi, fel cyfrannu at agweddau ar y cynllun gwella ysgol neu benodi staff newydd, pan fydd yn gymwys?
- A oes strwythurau ar waith i sicrhau cyswllt da rhwng cynrychiolwyr disgyblion a'r corff llywodraethol?
- A yw disgyblion yn cael eu cynnwys yn hunanarfarnu'r ysgol?
- A yw cyngor yr ysgol yn cael effaith? A oes ganddo hanes o lwyddo o ganlyniad i'w waith?

### **Pa mor dda yw medrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion? (FfAC 1.2.4)**

Wrth arfarnu medrau cymdeithasol a medrau bywyd disgyblion, mae angen i ni ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn dangos parch, gofal a phryder at eraill, ac a ydynt yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith. Dylem hefyd ystyried medrau emosiynol disgyblion, gan gynnwys eu hunanhyder a'u hunan-barch.

Yn ychwanegol, dylem archwilio a oes gan ddisgyblion y medrau sydd eu hangen i wella eu dysgu eu hunain, gweithio gydag eraill, datrys problemau a datblygu eu syniadau i symud ymlaen i gyfnod nesaf y dysgu. Dylem ystyried pa mor dda y maent wedi'u paratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

## **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â medrau cymdeithasol a medrau bywyd**

- Pa mor dda y mae disgyblion wedi'u paratoi ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol?
- A yw disgyblion yn dangos parch, gofal a phryder at eraill?
- I ba raddau y mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith?
- Pa mor ddatblygedig yw medrau emosiynol disgyblion, gan gynnwys eu hunanhyder a'u hunan-barch?
- A yw disgyblion yn meddu ar y medrau sydd eu hangen i wella eu dysgu eu hunain, gweithio gydag eraill, datrys problemau a datblygu eu syniadau i symud ymlaen i gyfnod nesaf y dysgu?

### **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

Mae'r adran hon yn cynnwys agweddau pwysig ar y ddarpariaeth, gan gynnwys y cwricwlwm, addysgu ac asesu, gofal, cymorth ac arweiniad a'r amgylchedd dysgu. Dylai'r ffocws yma fod nid yn unig ar ansawdd y ddarpariaeth, ond hefyd ar effaith y ddarpariaeth ar safonau a lles disgyblion. Swyddogaeth darpariaeth yr ysgol yw helpu gwneud safonau a lles mor dda ag y gallant fod.

### **Sut ydym yn arfarnu profiadau dysgu? (FfAC 2.1)**

Mae ysgolion yn rhydd i drefnu a chyflwyno'r cwricwlwm yn y ffordd sydd fwyaf addas ar gyfer eu hamgylchiadau a'u hanghenion, ar yr amod eu bod yn cwmpasu gofynion statudol fel y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Y brif ystyriaeth wrth arfarnu'r cwricwlwm yw pa mor dda y mae'r modd y caiff y cwricwlwm ei drefnu a'i gyflwyno yn bodloni anghenion y disgyblion.

Mae'n werth archwilio'n ofalus y trefniadau ar gyfer grwpio disgyblion trwy drefniadau fel setiau neu grwpio gallu cymysg. Yn benodol, mae'n syniad da edrych ar effaith unrhyw achosion o anghydbwysedd o ran rhyw, neu ddosbarthiadau sy'n rhy fawr neu'n eithriadol o fach a grwpiau tynnu allan.

Nid y cwricwlwm fel y'i dangosir ar yr amserlen yn unig y dylid ei ystyried. Dylem hefyd edrych ar natur a graddau dysgu y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys chwaraeon, clybiau, ymweliadau, digwyddiadau arbennig, cysylltiadau â'r gymuned a gweithgareddau allgyrsiol eraill. Mae'n bwysig ystyried pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r rhain a sut maent yn cydlynu â chynllunio cwricwlwm prif ffrwd.

### **Pa mor dda ydyn ni'n bodloni anghenion disgyblion, cyflogwyr a'r gymuned? (FfAC 2.1.1)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn bodloni anghenion disgyblion a chyflogwyr/y gymuned**

- I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn galluogi disgyblion i gael profiadau dysgu sy'n ddiddorol, yn heriol ac yn ysgogol?

- Beth yw effaith ein systemau ar gyfer grwpio disgyblion, gan ystyried cydbwysedd o ran rhyw a maint dosbarthiadau?
- Os defnyddir dosbarthiadau tynnu allan mewn grwpiau blwyddyn neu bynciau penodol, beth yw'r effaith ar brofiadau dysgu'r disgyblion?
- Os yw unrhyw ddisgyblion wedi'u datgymhwyso o agweddau ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, a ydynt yn gallu manteisio ar gwricwlwm priodol a chytbwys?
- A yw'r cwricwlwm yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion wrth iddynt symud o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2?
- A ydyn ni'n llwyddo i oresgyn rhwystrau i ddysgu disgyblion?
- A yw cyfranogiad cymunedol yn rhan o'r dysgu yn ein cwricwlwm?
- A yw dysgu y tu allan i'r ysgol a gweithgareddau allgyrsiol yn effeithio ar brofiadau a dysgu disgyblion?

### **Pa mor dda ydyn ni'n darparu ar gyfer medrau? (FfAC 2.1.2)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer medrau**

- I ba raddau y mae gweithgareddau dysgu ar draws y cwricwlwm yn diwallu anghenion disgyblion o ran dysgu a defnyddio medrau, yn enwedig medrau llythrennedd, darllen ac ysgrifennu?
- A ydyn ni'n sicrhau bod datblygiad medrau disgyblion yn digwydd mor dda â'i gilydd mewn Cymraeg a/neu Saesneg?
- A yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn cael ei chydlynu'n briodol fel bod cydlynid ym mhrofiadau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm?
- A yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn cael ei monitro a'i harfarnu ar draws y cwricwlwm?

### **Pa mor dda ydyn ni'n darparu ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig? (FfAC 2.1.3)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig**

- I ba raddau y mae ein darpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn galluogi disgyblion i gyflawni safonau da, gan ystyried cefndir a chyd-destun ieithyddol yr ysgol?
- Pa mor dda ydyn ni'n adlewyrchu polisi, amcanion a chanllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir mewn dogfennau fel 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol', 'Iaith Pawb' a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg?
- Pa mor dda ydyn ni'n cyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru?

## **Pa mor dda ydyn ni'n darparu addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE)? (FfAC 2.1.4)**

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer ADCDFE**

- Pa mor dda ydyn ni'n sicrhau bod ADCDFE yn digwydd mewn pynciau unigol ac ar draws y cwricwlwm cyfan?
- I ba raddau ydyn ni'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ADCDFE drwy waith a phrosiectau allgyrsiol?
- Pa mor dda ydyn ni'n mesur effaith ADCDFE?
- Fel ysgol, ydyn ni'n gweithredu'n gynaliadwy?
- A ydyn ni'n galluogi disgyblion i adnabod pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb a champau unigol i wneud y byd yn lle gwell?
- A ydyn ni'n galluogi disgyblion i gael lefel briodol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy, a'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y medrau, yr agweddau a'r gwerthoedd angenrheidiol i ddod yn ddinesydd byd-eang?

### **Sut ydym yn arfarnu addysgu? (FfAC 2.2)**

Addysgu o ansawdd uchel yw'r sylfaen y caiff perfformiad addysgol effeithiol ei adeiladu arni, gan alluogi disgyblion i gaffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau.

Mae monitro ac arfarnu ansawdd addysgu yn ganolog i farnu effeithiolrwydd ansawdd addysg a hyfforddiant. Mae angen i'r broses hon ganolbwyntio ar arsylwi yn yr ystafell ddosbarth. Gall arfarnu'r wybodaeth am safonau arwain at farnau ar yr hyn sy'n mynd yn dda a'r hyn nad yw cystal, ond dim ond drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth y bydd ysgol yn canfod y rhesymau pam. Dylid seilio arsylwi ac arfarnu addysgu ar feini prawf clir a ddeallir yn dda. Y dasg allweddol wrth farnu ansawdd addysgu yw'r effaith a gaiff ar y safonau a gyflawnir. Ni ddylai ganolbwyntio ar ddefnyddio proses benodol ar wahân i'w heffaith. Yn yr un modd, wrth graffu ar asesu, dylai'r ffocws fod ar ba effaith mae'n ei chael ar ddysgu.

### **Pa mor dda ydyn ni'n arfarnu ystod ac ansawdd y dulliau addysgu? (FfAC 2.2.1)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag ystod ac ansawdd y dulliau addysgu**

- A oes gennym ddisgwyliadau digon uchel o bob un o'r disgyblion?
- A oes gwybodaeth bynciol dda a chyfoes gan ein hathrawon?
- A yw athrawon yn cynllunio'n effeithiol ac a oes ganddynt amcanion clir ar gyfer sesiynau a addysgir a phrofiadau dysgu eraill?
- A oes gan athrawon ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi a'u herio i gyflawni'n dda?
- A ydyn ni'n llwyddiannus o ran darparu gwaith ymestynnol i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion, er enghraifft, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol?
- A ydyn ni'n darparu modelau iaith da ar gyfer disgyblion?

- A ydyn ni'n sefydlu perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu?
- A ydyn ni'n rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol?
- A ydyn ni'n defnyddio staff cymorth dysgu yn effeithiol?

### **Pa mor dda ydyn ni'n gwella cyflawniad disgyblion drwy asesu dysgu ac asesu ar gyfer dysgu? (FfAC 2.2.2)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn asesu**

- A yw disgyblion yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd ac yn cyfrannu at osod eu targedau dysgu eu hunain?
- A ydyn ni'n defnyddio mathau gwahanol o adborth yn effeithiol i roi gwybod i ddisgyblion am eu dysgu?
- A ydyn ni'n gyson o ran ansawdd yr adborth a faint o adborth a roddir i ddisgyblion?
- A ydyn ni'n annog disgyblion i ystyried eu hadborth?
- A ydyn ni'n gwneud yn siwr fod asesiadau yn ddilys ac yn ddibynadwy?
- Pa mor dda y mae'r broses asesu yn llywio'r cynllunio ar gyfer y dyfodol?
- Pa mor dda ydyn ni'n dadansoddi canfyddiadau asesu, gan gynnwys asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol?
- A ydyn ni'n cadw cofnodion clir, systematig, hylaw a defnyddiol ar bob disgybl?
- A ydyn ni'n defnyddio cofnodion yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion, cymharu deilliannau â meincnodau ac ymyrryd mewn achosion unigol os bydd angen?
- A ydyn ni'n llunio adroddiadau ar ddisgyblion sy'n glir, yn gyson ac yn llawn gwybodaeth, ac yn amlinellu meysydd i'w gwella?
- A ydyn ni'n galluogi disgyblion i gyfrannu at gynnwys adroddiadau, lle bo'n briodol?
- A yw rhieni/gofalwyr yn deall gweithdrefnau asesu ac yn cael gweld cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'u plant?
- A ydyn ni'n annog rhieni/gofalwyr i ymateb i adroddiadau ar gynydd?

#### **Sut ydyn ni'n arfarnu gofal, cymorth ac arweiniad? (FfAC 2.3)**

Dylai'r ffocws yma fod ar effaith y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar safonau a lles disgyblion yn hytrach nag ar y gweithdrefnau a'r trefniadau.

Mae'n hanfodol bod unrhyw arfarniad o ofal, cymorth ac arweiniad yn edrych ar y graddau y mae'r trefniadau yn cael effaith fuddiol ar ddisgyblion sy'n agored i niwed. Mae hefyd yn bwysig cadw mewn cof y dylai fod cyswllt clir rhwng unrhyw farnau a lunnir am ofal, cymorth ac arweiniad a'r barnau am safonau a lles.

**Pa mor dda ydyn ni'n bodloni'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol? (FfAC 2.3.1)**

**Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer iechyd a lles**

- A oes gennym bolisiau a threfniadau priodol ac effeithiol ar gyfer hyrwyddo byw yn iach a lles emosiynol a chorfforol disgyblion?
- A ydyn ni'n helpu disgyblion i reoli eu teimladau a datblygu hunanymwybyddiaeth a hunan-barch?
- A ydyn ni'n ystyried barn y disgyblion a'r rhieni/gofalwyr yn ddigon aml?
- A yw ein darpariaeth ar gyfer addysg rhyw a pherthynas ac addysg am gamddefnyddio sylweddau yn cynorthwyo datblygiad a dealltwriaeth y disgyblion?
- A oes gennym drefniadau addas ar gyfer adrodd ar faterion iechyd a diogelwch?
- A oes gennym drefniadau effeithiol ar gyfer delio ag aflonyddu a bwlio?
- A yw ein darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn effeithiol ac yn cael ei chyflwyno'n dda, ac a yw disgyblion yn elwa digon ohoni?
- Pa mor dda ydyn ni'n helpu disgyblion i wella'u dysgu eu hunain a gweithio gydag eraill?
- A yw ein disgyblion yn mwynhau bywyd yn yr ysgol?
- Pa mor effeithiol ydyn ni'n hyrwyddo ymddygiad a phresenoldeb da?
- Pa mor dda y mae gan bob un o'r disgyblion, rhieni/gofalwyr ac athrawon ddealltwriaeth glir o bolisiau i hyrwyddo ymddygiad da ac atal gwaharddiadau, a pha mor gyson y cânt eu cymhwyso?

**Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol**

- A ydyn ni'n annog ein disgyblion i ddatblygu synnwyr o chwilfrydedd trwy fyfyrion ar eu bywydau a'u credoau eu hunain a phobl eraill, eu hamgylchedd a'r cyflwr dynol?
- A ydyn ni'n ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd gan gyfeirio at ddysgeidiaethau ac arferion crefyddau yn ogystal â phrofiad a safbwynt disgyblion eu hunain?
- A ydyn ni'n meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch am wirionedd a chyfiawnder?
- A ydyn ni'n hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir?
- A ydyn ni'n annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth o fyw mewn cymuned?
- A yw disgyblion yn dysgu sut i uniaethu ag eraill a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain?
- A oes gennym brosesau i ddisgyblion drafod a chytuno rheolau grŵp?
- A yw ein disgyblion yn cyfrannu at wneud penderfyniadau yn yr ysgol?
- A ydyn ni'n cyfrannu'n dda at y gymuned leol, gan gynnwys trwy weithgareddau allgyrsiol rheolaidd?
- A ydyn ni'n annog disgyblion i ymwneud â'r celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol eraill trwy eu hastudiaethau a gweithgareddau allgyrsiol?



### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn darparu ar gyfer cyd-addoli**

- A yw ein gweithredoedd o gyd-addoli yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion?
- A yw ein gweithredoedd o gyd-addoli yn bodloni gofynion statudol?

### **Pa mor dda y caiff disgyblion eu cynorthwyo gan wasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol? (FfAC 2.3.2)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda y caiff ein disgyblion eu cynorthwyo gan wasanaethau, gwybodaeth ac arweiniad arbenigol**

- A ydyn ni'n darparu cymorth unigol i ddisgyblion ar faterion addysgol a materion eraill?
- A ydyn ni'n trefnu bod ystod eang o wybodaeth ar gael i ddisgyblion?
- Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni ein cyfrifoldebau ar gyfer arweiniad?
- A ydyn ni'n galluogi disgyblion i ddefnyddio cymorth proffesiynol oddi mewn i'r ysgol a chan wasanaethau arbenigol?
- A ydyn ni'n cysylltu'n effeithiol ag asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd, seicolegol, cwnsela a gwasanaethau cymdeithasol?
- A yw ansawdd y wybodaeth a ddarperir i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr yn llawlyfrau'r ysgol a deunyddiau eraill yn darparu arweiniad priodol?
- A ydyn ni'n ystyried cydlyniaeth ac effeithiolrwydd cyffredinol y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol ac arbenigol?

### **Pa mor dda yw ein trefniadau diogelu? (FfAC 2.3.3)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â'n trefniadau diogelu**

- A yw ein trefniadau ar gyfer diogelu plant a/neu oedolion sy'n agored i niwed yn briodol ac a ydyn ni'n cydymffurfio ag arfer orau?
- A yw ein polisi yn amlinellu:
  - ▲ cyfrifoldebau'r uwch aelod o staff enwebedig ar gyfer delio â materion amddiffyn a diogelu plant a rhoi cyngor/cymorth i staff eraill;
  - ▲ cyfrifoldebau'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant, gweithdrefnau clir sy'n adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008; a
  - ▲ threfniadau ar gyfer hyfforddi?
- A oes gennym drefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd effeithiol ar waith i sicrhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr, ac a yw ein trefniadau yn bodloni gofynion cyfreithiol?

### **Pa mor dda ydyn ni'n bodloni anghenion disgyblion ag ADY? (FfAC 2.3.4)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn bodloni anghenion disgyblion ag ADY**

- A oes gennym drefniadau effeithiol ar gyfer nodi a monitro ADY?

- A yw ein disgyblion ag ADY yn cael y cymorth tymor byr neu dymor hir sydd ei angen arnynt?
- A ydyn ni'n cynnig pob maes o'r cwricwlwm i ddisgyblion ag ADY, gan gynnwys pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol oni nodir bod datgymhwysio mewn datganiadau unigol?
- A yw systemau grwpio a chymorth yn bodloni'r ystod o anghenion disgyblion heb gael effaith niweidiol ar ehangder, cydbwysedd a pharhad cwricwlwm y disgyblion?
- A ydyn ni'n integreiddio, yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer disgyblion ag ADY mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac mewn grwpiau arbennig, er mwyn iddynt allu cyflawni safonau priodol?
- A yw ansawdd y cymorth ar gyfer disgyblion yn eu helpu i gyflawni'r amcanion a nodir mewn cynlluniau addysg unigol?
- A ydyn ni'n cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd, gan gynnwys adolygiadau blynyddol?
- A yw ein gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd yn bodloni'r gofynion statudol?
- A ydyn ni'n ymgynghori'n rheolaidd â rhieni?
- A ydyn ni'n arfarnu digonolrwydd a defnyddioldeb y cyfraniadau gan gynorthwywyr cymorth dysgu, athrawon cymorth, seicolegwyr addysgol, arbenigwyr meddygol, parafeddygol a nyrsio ac asiantaethau allanol eraill

### **Sut ydyn ni'n arfarnu'r amgylchedd dysgu? (FfAC 2.4)**

Mae angen i ysgolion ddarparu amgylchedd dysgu sy'n helpu disgyblion i lwyddo gorau y gallant. I fod yn gwbl effeithiol, mae angen i ysgol fod yn gymuned gynhwysol lle gall disgyblion gael cyfle cyfartal i fanteisio ar holl feysydd darpariaeth yr ysgol. Mewn ysgolion effeithiol, mae pwyslais clir ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae hefyd yn bwysig bod gan ysgol ddigon o adnoddau ac adeiladau o ansawdd da sy'n cyfateb yn dda i anghenion dysgu'r disgyblion. Yn ogystal, mae angen i'r adeiladau gael eu cynnal a'u cadw'n dda.

### **Pa mor dda ydyn ni'n arfarnu ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth ein hysgol? (FfAC 2.4.1)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â'n hethos a'n darpariaeth ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth**

- A ydyn ni wedi sefydlu ethos ysgol sy'n gynhwysol ac sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol?
- A ydyn ni'n ystyried ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth cefndiroedd disgyblion ac yn gweithredu'n briodol ar sail y wybodaeth hon?
- A ydyn ni'n cynnig hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac yn herio stereoteipiau mewn agweddau, dewisiadau, disgwyliadau a chyflawniadau disgyblion?
- A ydyn ni'n dadansoddi, a phan fydd yn briodol, yn mynd i'r afael â bylchau rhwng y rhywiau mewn pynciau?
- A ydyn ni'n datblygu agweddau goddefgar ac yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion a'r staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch?

- Pa mor dda ydyn ni'n hyrwyddo atal a chael gwared ar ymddygiad gormesol, gan gynnwys bwlio, rhywiaeth, hiliaeth a homoffobia ac eithafiaeth dreisgar?
- A yw ein polisiâu a gweithdrefnau yn effeithiol o ran delio ag achosion penodol o wahaniaethu neu ymddygiad gormesol?
- A ydyn ni'n cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion a darpar ddisgyblion ag anabledau yn dioddef triniaeth lai ffafriol yn yr ysgol neu o ran derbyniadau a gwaharddiadau?
- A oes gennym gynllun cydraddoldeb sy'n cael ei ddeall yn dda ac sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol? A yw ein polisi yn bodloni'r gofynion statudol? A oes gennym gynllun gweithredu sy'n sicrhau bod y polisi'n cael ei gyflwyno?
- A ydyn ni'n darparu hyfforddiant cydraddoldeb priodol ar gyfer staff?
- A ydyn ni'n monitro ac yn mynd i'r afael yn effeithiol ag unrhyw faterion neu gŵynion cysylltiedig sy'n codi?

### **Pa mor dda ydyn ni'n sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn briodol ar gyfer anghenion y disgyblion? (FfAC 2.4.2)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag a yw ein hamgylchedd ffisegol yn briodol ar gyfer anghenion y disgyblion**

- A yw'r adnoddau yn gweddu'n dda i anghenion y disgyblion?
- A yw'r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cael ei gynnal yn dda i gefnogi'r addysgu a'r dysgu?
- A yw'r adeiladau yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion a'r gweithgareddau a gynigir?
- A yw'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn briodol ar gyfer anghenion y disgyblion?
- A yw'r adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda?

#### **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arweinyddiaeth yn ymwneud ag:

- adeiladu a chydlynu tîm y mae ei aelodau'n rhannu diben cyffredin;
- annog unigolion i gyfrannu at y diben cyffredin; a
- datblygu cymhwyster i fyfyrion feirniadol ar yr hyn sy'n cael ei wneud a sut y gellir ei wella.

Y pennaeth sy'n chwarae'r rhan fwyaf hanfodol a chanolog. Mae angen i unrhyw arfarniad o'r rôl honno ganolbwyntio ar ba mor effeithiol ydyw yn yr agweddau hynny ar waith yr ysgol sy'n dylanwadu'n fwyaf uniongyrchol ar wella darpariaeth, safonau a lles.

Mae arweinyddiaeth ysgol effeithiol hefyd yn cynnwys adeiladu arweinyddiaeth a rennir a sicrhau bod staff sydd â rolau arweinyddiaeth a rheolaeth yn gwneud cyfraniad pwysig. Mae'n sicrhau bod staff yn deall eu disgrifiadau swydd a'u bod yn ymroddedig iddynt. Mae angen i staff ganolbwyntio ar sut y gall eu gwaith yn eu rôl arwain at welliannau.

Mae arweinyddiaeth ysgol effeithiol yn sicrhau y caiff disgyblion eu hannog a'u cefnogi'n briodol i fod yn rhan o wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu dysgu a'u lles.

Mae arweinyddiaeth lwyddiannus yn galluogi staff, cyrff llywodraethol a disgyblion i fod â rhan mewn llunio nodau, gwerthoedd a pholisïau, ac yn y gweithdrefnau sy'n deillio ohonynt. Mae timau arweinyddiaeth llwyddiannus yn gweithio'n effeithiol â'i gilydd ac maent yn rhannu ymrwymiad i sicrhau rhagoriaeth.

### **Sut ydyn ni'n arfarnu effeithiolrwydd ein harweinyddiaeth? (FfAC 3.1)**

Wrth feddwl am gyfeiriad strategol, mae angen i ni ystyried i ba raddau y mae gennym nodau clir, amcanion strategol, a chynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion disgyblion. Mae cynlluniau da yn cynnwys ffocws priodol ac yn cael eu gweithredu a'u monitro mewn ffordd amserol.

Nid yw amlinellu a chyfleu synnwyr clir o gyfeiriad, a bod â chynlluniau a phrosesau addas ar waith, yn ddibenion ynddynt eu hunain. Mae cynlluniau a phrosesau ond gystal â'r graddau y maent yn effeithiol o ran cynnal safon uchel a gwella darpariaeth a safonau. Rhaid i arweinyddiaeth dda gael effaith gadarnhaol.

Mae angen i ni ystyried pa mor dda y mae'r corff llywodraethol yn cyflawni'i rwymedigaethau statudol ac yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol. Mae angen i ni ystyried hefyd pa mor dda y mae'r llywodraethwyr nid yn unig yn cefnogi'r ysgol, ond yn ei herio i wneud yn well hefyd.

### **Pa mor dda yw ein cyfeiriad strategol a beth yw effaith ein harweinyddiaeth? (FfAC 3.1.1)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â'n cyfeiriad strategol**

- A oes gennym nodau clir, amcanion strategol, a chynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion disgyblion?
- A yw ein cynlluniau yn cynnwys ffocws priodol ac a ydynt yn cael eu gweithredu a'u monitro mewn ffordd amserol?
- A yw rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac a yw'r rhychwantau cyfrifoldeb mewn uwch dimau rheoli a rheolwyr canol yn hyfyw a chytbwys?
- A yw pob un o'r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau mewn perthynas uniongyrchol â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol?
- A yw arweinwyr yn rheoli eu hamser eu hunain yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ymatebol?
- A yw cyfarfodydd yn canolbwyntio ar faterion pwysig am berfformio a busnes craidd, ac yn cynhyrchu pwyntiau gweithredu clir sy'n cael eu cyflawni yn unol â'r hyn a gytunwyd?
- A yw ein strwythurau rheoli a phwyllgor yn cydlynu â chyfeiriad strategol yr ysgol ac a ydynt yn mynd i'r afael â materion craidd?
- Pa mor dda ydyn ni'n defnyddio data i fonitro perfformiad?
- A ydyn ni'n cyfleu disgwyliadau uchel i'r rhai yr ydym yn eu rheoli?
- A ydyn ni'n cytuno ar dargedau heriol a realistig i ni ein hunain ac eraill, ac yn eu cyflawni?

- A ydyn ni'n trafod ac yn cydweithredu'n dda â staff mewnol ac asiantaethau allanol?

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn ag effaith yr arweinyddiaeth**

- A ydyn ni'n cyfleu'r weledigaeth ar gyfer ein hysgol yn dda ac yn archwilio sut i'w chyflawni, ar y cyd ag eraill?
- A ydyn ni'n modelu ac yn hyrwyddo ymddygiadau a gwerthoedd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at greu ethos ysgol lle mae ein disgyblion a'n staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?
- A ydyn ni'n cefnogi ac yn herio pawb yn weithredol i wneud eu gorau?
- A ydyn ni'n adeiladu ar ddealltwriaeth ar y cyd ac arweinyddiaeth ddsranedig i greu diwylliant dysgu ymatebol yn ein hysgol?
- A ydyn ni'n rhannu'n argyhoeddiadol gyda rhanddeiliaid ac eraill yng nghymuned ein hysgol genhadaeth gyffredin i gyflwyno addysg o'r ansawdd gorau?
- Pa mor dda ydyn ni'n rheoli perfformiad ein staff er mwyn eu helpu i wella eu harfer?
- A ydyn ni'n mynd i'r afael â thanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol lle bo angen?
- A yw ein prosesau rheoli perfformiad yn nodi anghenion hyfforddi a datblygu unigolion ac ysgol-gyfan yn glir? A ydyn ni'n blaenoriaethu'r rhain yn briodol ac yn mynd i'r afael â nhw yn llawn?
- A oes targedau ar gyfer gwella gan bob un o'n staff, sy'n cefnogi cyflwyno'r nodau strategol yn ein cynllun gwella ysgol a chynlluniau gweithredu eraill?
- A yw prosesau rheoli perfformiad yn helpu i wella ansawdd ein haddysgu a'n dysgu, yn ogystal â deilliannau disgyblion?

### **Pa mor dda yw gwaith ein llywodraethwyr? (FfAC 3.1.2)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â gwaith ein llywodraethwyr**

- Pa mor dda y mae ein llywodraethwyr yn deall eu rolau?
- Pa mor dda ydyn nhw'n cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac yn rhoi ystyriaeth i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol?
- A oes ganddynt wybodaeth dda am berfformiad ein hysgol a'r materion sy'n effeithio arno?
- A ydynt yn darparu synnwyr o gyfeiriad ar gyfer gwaith ein hysgol?
- A ydynt yn cefnogi ein hysgol fel ffrindiau beirniadol, ac yn ein dwyn i gyfrif am y safonau a'r ansawdd yr ydym yn eu cyflawni?
- A ydynt yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i ddisgyblion, aelodau o staff, rhieni/gofalwyr neu unrhyw un arall am y gweithdrefnau os ydynt yn dymuno gwneud cwyn neu apelio?
- A ydynt yn gwneud yn siŵr bod grwpiau diduedd yn delio â chwynion yn brydlon?

### **Pa mor dda ydyn ni'n bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol? (FfAC 3.1.3)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol**

- A ydyn ni'n glir ynghylch blaenoriaethau lleol ac yn enwedig blaenoriaethau

cededlaethol, ac a oes gennym farn a strategaeth gyson a systematig ynglŷn â sut byddwn yn ymateb iddynt?

- A ydyn ni'n llwyddo o ran cyflawni'n unol â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys:
  - ▲ y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion; Fframwaith y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru;
  - ▲ saith nod graidd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
  - ▲ yr agenda Trawsnewid;
  - ▲ cynllun y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; a
  - ▲ chytundebau partneriaethau a chonsortia lleol?
- A ydyn ni'n gwerthfawrogi diben y blaenoriaethau hyn a'r modd y gallant wella deilliannau a lles disgyblion?
- A ydyn ni'n ymateb i heriau addysgol yr ardal leol drwy weithio gydag ysgolion eraill, asiantaethau a'r awdurdod lleol?

### **Sut ydyn ni'n gwella ansawdd yr hyn a wnawn? (FfAC 3.2)**

Diben allweddol y canllaw hwn yw gwella ansawdd drwy hunanarfarnu effeithiol. Bydd rhan gyntaf y canllaw a'r holl adrannau ar bob cwestiwn allweddol a phob dangosydd ansawdd yn eich helpu i arfarnu eich darpariaeth a'i heffaith ar safonau a lles. Ar gyfer yr agwedd gyntaf ar ddangosydd ansawdd **3.2 (3.2.1 hunanarfarnu, gan gynnwys gwrando ar ddisgyblion ac eraill)**, mae rhai egwyddorion bras yn ymwneud â hunanarfarnu sy'n ategu yn hytrach nag ailadrodd adrannau eraill o'r canllaw. Ar gyfer y ddwy agwedd arall yn y dangosydd ansawdd hwn (**3.2.2 a 3.2.3**), mae mwy o fanylion.

Pan fydd hunanarfarnu yn mynd yn broses broffesiynol fyfyrion, mae'n helpu ysgolion i ddod i adnabod eu hunain yn dda, nodi'u hagenda ar gyfer gwella a hyrwyddo arfer sy'n arwain y sector.

Dylai'r prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant fod yn rhan reolaidd ac arferol o fywyd gwaith yr ysgol. Dylai ffocws hunanarfarnu fod ar nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu, monitro darpariaeth ac asesu deilliannau. Dylai'r broses gynnwys adolygiad trwyadl o bob agwedd ar fywyd yr ysgol, ac yn bwysicaf oll, sut mae'r rhain yn effeithio ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Ystyriaeth allweddol yw pa un a yw'r ysgol yn cael ei rheoli ar sail asesiad cywir o'i chryfderau a'i gwendidau. Mae'n annhebygol y bydd ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda os nad yw'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol.

Dylai cynllunio gwelliant lifo'n naturiol o'n gweithgareddau hunanarfarnu. Dylai'r blaenoriaethau mewn unrhyw gynllun gwella fod wedi'u seilio ar ganfyddiadau ein hunanarfarniad. Os yw ein cynllunio ar gyfer gwelliant yn dda, yna dylai fod gennym hanes o welliannau â thystiolaeth dda ohono.

Pan fydd hynny'n angenrheidiol, bydd angen ymyrraeth a chymorth uniongyrchol i wella perfformiad. Ni ddylid edrych arno fel ymateb i fethiant, ond fel ymyrraeth a chymorth sy'n arwain at welliannau sylweddol. Mae ymyrraeth a chymorth ar gyfer rhai grwpiau o ddisgyblion mwy agored i niwed yn debygol o olygu gweithio ar draws yr ysgol gyfan yn ogystal â gydag asiantaethau eraill.

### **Pa mor dda ydyn ni'n cynnal hunanarfarnu, gan gynnwys gwranddo ar ddisgyblion ac eraill? (FfAC 3.2.1)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â hunanarfarnu**

- A ydyn ni'n defnyddio tystiolaeth i nodi tanberfformio neu berfformiad cymedrol?
- A yw hunanarfarnu yn rhan reolaidd o fywyd gwaith ein hysgol ac a yw wedi'i ymgorffori yn ein cynllunio strategol?
- A ydyn ni'n mynd ati'n drylwyr i arfarnu a monitro data ar safonau ac ansawdd addysg, gan gynnwys ystyried tueddiadau a chynnydd dros gyfnod?
- A ydyn ni'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu?
- A ydyn ni'n cynnwys pob un o'r staff wrth asesu deilliannau a'u perfformiad eu hunain?
- A ydyn ni'n annog disgyblion i rannu'u barnau a chodi materion?
- A ydyn ni'n ystyried barn ein staff, rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid eraill?
- Pan fydd yn briodol, ydyn ni'n defnyddio adolygiadau gan asiantaethau allanol?

### **Sut ydyn ni'n cynllunio a sicrhau gwelliant? (FfAC 3.2.2)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chynllunio a sicrhau gwelliant**

- A yw ein gweithgarwch hunanarfarnu yn arwain at lunio ein cynlluniau gwella?
- A ydyn ni'n defnyddio gwybodaeth o hunanarfarnu i osod blaenoriaethau a thargedau heriol a phriodol ar gyfer gwella?
- A ydyn ni wedi blaenoriaethu'r materion yr ydym yn dymuno'u gwella?
- A ydyn ni'n gweithredu strategaethau cadarn sy'n debygol o ysgogi'r gwelliannau dymunol?
- A yw pob un o'r staff yn chwarae eu rhan mewn rhoi'r strategaethau ar waith?
- Pan fydd angen, ydyn ni'n gweithredu'n gyflym ac yn darparu cymorth i wella perfformiad?
- A ydyn ni wedi diffinio'r camau ar gyfer gwella mewn graddfeydd amser penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb ar gyfer eu cyflwyno?
- A ydyn ni wedi sicrhau bod ein blaenoriaethau'n cael eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau?
- A yw ein camau wedi cael effaith gadarnhaol, a lle bo'n berthnasol, wedi arwain at welliannau mesuradwy mewn safonau ac ansawdd?
- A oes gennym hanes da neu ragorol o wneud gwelliannau dros y blynyddoedd diwethaf?

### **Sut ydym yn rhan o rwydweithiau o arfer broffesiynol? (FfAC 3.2.3)**

Cymuned ddysgu broffesiynol yw grŵp o athrawon sy'n gyfrifol am ysgogi newid yn eu hysgol eu hunain a/neu ar draws rhwydwaith o ysgolion. Gallai gynnwys rhwydweithiau o fewn yr awdurdod lleol a grwpiau eraill o ysgolion.

Mae cymunedau dysgu proffesiynol yn ffordd o sicrhau safonau uwch a lles trwy gydweithredu rhwng athrawon mewn ysgolion, rhwng ysgolion ac ar draws ysgolion. Gall athrawon weithio gyda'i gilydd i rannu a datblygu arbenigedd a gwybodaeth

broffesiynol a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Gall cymunedau dysgu proffesiynol alluogi ysgolion i fanteisio ar wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am arweinyddiaeth, dysgu, addysgu a lles yn yr ysgol.

Dylai pob ysgol fod yn datblygu fel cymuned ddysgu gref a chyflawni diwylliant o gydweithredu o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion. Mae'r broses hon yn gofyn am drefniadau i gefnogi ymgysylltiad pob un o'r staff wrth gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol.

Fel rhan o'r arfarniad mewn perthynas â **3.2.3** mae angen i ni hefyd graffu ar effeithiolrwydd trefniadau'r ysgol ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â rhwydweithiau o arfer broffesiynol**

- A yw'r staff yn ymgysylltu â chymunedau dysgu proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt?
- A yw ein hymglymiad mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn ein galluogi i fanteisio ar wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am arweinyddiaeth, dysgu, addysgu a lles yr ysgol?
- A ydyn ni'n datblygu cymuned ddysgu gref ac yn cyflawni diwylliant o gydweithredu o fewn ein hysgol ein hunain a gydag ysgolion eraill?
- A yw ein trefniadau'n cefnogi ymgysylltiad gweithredol pob un o'n staff i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol, gan gynnwys cyfranogi mewn profiadau dysgu proffesiynol yr ysgol gyfan?
- A yw pob un o'n staff yn cael eu cefnogi gan ddatblygiad proffesiynol parhaus?
- A yw pob un o'n staff yn caffael gwybodaeth a medrau newydd i ddatblygu dulliau arloesol ar gyfer dysgu ac addysgu?
- A yw pob un o'n staff yn cymryd rhan mewn arsylwi ystafell ddosbarth uniongyrchol?
- A ydyn ni'n rhannu arfer dda gydag athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol a thu hwnt?
- A ydyn ni'n myfyrio ar ein harfer ein hunain ac yn arfarnu effaith dysgu proffesiynol ar ddysgu a lles ein disgyblion?

### **Sut ydyn ni'n arfarnu ein heffeithiolrwydd wrth weithio mewn partneriaeth? (FfAC 3.3)**

Rydym i gyd yn rhannu'r nod o weithio mewn partneriaeth er mwyn gwella darpariaeth, safonau a lles. I fod yn effeithiol wrth weithio gydag eraill, mae angen i ysgolion:

- fod yn berthnasol i'w cymuned leol ac i fywydau plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol a thu hwnt i oriau ysgol;
- ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau, asiantaethau allanol a'r sector gwirfoddol; a
- gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig gydag asiantaethau eraill i wella safonau a lles disgyblion unigol.

Ar gyfer ysgolion yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, mae'r ffocws cymunedol yn arbennig o bwysig. Dyma lle gall ysgolion chwarae rhan bwysig i ddarparu'r



profiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion mewn ardaloedd mwy ffyniannus. Ni all ysgolion ar eu pennau'u hunain dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawniad. Mae ymchwil yn pwysleisio'r angen am ddulliau integredig a dulliau â sail eang sy'n golygu nifer o asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd.

Ni ddylem golli golwg ar y nod o weithio mewn partneriaeth. Ni wneir hyn er ei fwyn ei hun nac i ymateb i ofynion allanol. Dylai arwain at well darpariaeth a safonau a lles gwell. Prawf unrhyw agwedd ar weithio mewn partneriaeth yw a all gael effaith glir a buddiol y gellir ei dangos ar ddisgyblion.

Mae angen i ni ystyried pa mor dda y mae ein hysgol yn cydweithredu â phartneriaid i gyflwyno rhaglenni a dewisiadau cydlynus. I wneud hyn, mae angen i'r ysgol gael strwythurau a phrosesau effeithiol ar waith sy'n cyfrannu'n dda at arferion gweithio ar y cyd. Dylem ystyried sut mae ein staff yn gweithio gyda phartneriaid i gynllunio, rheoli a sicrhau ansawdd darpariaeth, er enghraifft, drwy gydgyfrannu ein cyllid a'n hadnoddau.

Pan fo disgyblion yn symud yn rheolaidd i'r ysgol ac o'r ysgol fel rhan o weithgarwch partneriaeth, dylem ystyried pa mor ddiogel ac effeithlon y trefnwn y gweithgareddau hyn o ddydd i ddydd.

### **Pa mor strategol ydyn ni'n gweithio gyda'nartneriaid i wella safonau a lles y disgyblion? (FfAC 3.3.1)**

Mae angen i ni ystyried pa mor strategol y mae ein hysgol yn gweithio gyda'i phartneriaid i wella safonau a lles disgyblion. Mae partneriaid yn cynnwys:

- rhieni/gofalwyr;
- ysgolion uwchradd partner;
- ysgolion eraill;
- gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- y gymuned;
- ystod o asiantaethau amlddisgyblaethol a sefydliadau gwirfoddol; a
- sefydliadau hyfforddiant cychwynol i athrawon.

Dylai ein hysgol fod yn glir ynglŷn â'i rôl a'i chyfrifoldebau o fewn unrhyw bartneriaethau ffurfiol. Y mater allweddol yw pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau strategol i helpu adeiladu ein cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus.

Bydd partneriaethau yn dibynnu ar gyswllt da, ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng partneriaid.

### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â phartneriaethau strategol**

- A ydyn ni'n chwarae rhan allweddol mewn partneriaethau perthnasol ac effeithiol sydd o fudd i'n disgyblion?
- A ydyn ni'n gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig gydag asiantaethau eraill i wella safonau a lles disgyblion unigol?
- A ydyn ni'n glir ynglŷn â'n rôl a'n chyfrifoldebau o fewn ein partneriaethau?
- A ydyn ni'n defnyddio partneriaethau strategol i'n helpu i adeiladu ein

cynhwysedd ar gyfer gwelliant parhaus?

- A ydyn ni'n sicrhau bod cyswllt da, ymddiriedaeth a chyfathrebu clir rhwng ein hysgol a'n partneriaid?
- A ydyn ni'n ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys busnesau, asiantaethau allanol a'r sector gwirfoddol, er budd ein disgyblion?

### **Pa mor dda ydyn ni'n cydweithredu â phartneriaid i gyflwyno rhaglenni a dewisiadau cydlynus? (FfAC 3.3.2)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â chynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd**

- A oes gennym strwythurau a phrosesau effeithiol sy'n cyfrannu'n dda at arferion cydweithio?
- Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i gynllunio, rheoli a sicrhau ansawdd darpariaeth?

#### **Cwestiynau y dylem eu gofyn i ni'n hunain ynglŷn â'n gwaith gydag ysgolion partner**

- Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda'n hysgolion partner i ddatblygu parhad mewn dysgu a lles?
- Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda'n hysgolion partner i safoni a sicrhau ansawdd asesu gwaith a chyrsgiau disgyblion?
- Pa mor dda ydyn ni'n gweithio gyda'n hysgolion partner i ddefnyddio a rhannu adnoddau yn effeithiol?

### **Sut ydyn ni'n arfarnu rheoli adnoddau? (FfAC 3.4)**

Mae arweinyddiaeth yn gofyn bod adnoddau, gan gynnwys staff, amser a chyllid, yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella darpariaeth, safonau a lles. Wrth arfarnu rheoli adnoddau, dylem edrych ar ansawdd ein cynlluniau a'n strategaethau i sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth am arian.

Un gorchwyl pwysig yw barnu pa mor effeithlon ac effeithiol yr ydym yn cynllunio ac yn cynnal strategaethau i reoli ein staff a'r adnoddau sydd ar gael. Dylem fod yn ymwybodol y gall fod rhai nodweddion o'n rheoli sy'n cyfrannu at reoli adnoddau yn effeithlon neu'n amharu arno.

Pan edrychwn ar faterion ariannol, nid ar fanylion ein cyllidebau ariannol yn unig y dylwn edrych. Wrth arfarnu rheoli adnoddau, dylai'r ffocws fod ar y graddau y mae penderfyniadau gwariant ein hysgol a chynllunio ariannol bras wedi'u seilio ar flaenoriaethau ar gyfer gwario ar welliant dros gyfnod.

Ffocws pwysig arall ar gyfer arfarnu gwerth am arian yw a yw'r ysgol yn effeithiol o ran cyflawni deilliannau da neu ragorol ar gyfer disgyblion. Gall fod yn ddefnyddiol ceisio gwneud arfarniad cyffredinol o werth am arian. Mae hyn yn golygu barnu a yw ein hysgol yn cynnig gwerth rhagorol, da, digonol neu anfoddhaol am arian o ran y defnydd a wneir o'r gyllideb a ddyrannwyd iddi.

### **Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ein staff a'n hadnoddau? (FfAC 3.4.1)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â rheoli staff ac adnoddau**

- A yw ein hysgol wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol?<sup>1</sup>
- A ydyn ni'n defnyddio staff i wneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad ?
- A ydyn ni'n nodi ac yn diwallu anghenion datblygu pob un o'r staff trwy systemau gwerthuso a rheoli perfformiad?
- A ydyn ni'n gwneud defnydd effeithiol o amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)?
- A ydyn ni'n defnyddio strategaethau a phrosesau priodol i fodloni gofynion statudol y Cytundeb Cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Baich Gwaith' (Ionawr 2003)?
- Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ac yn defnyddio cynorthwywyr addysgu a staff nad ydynt yn addysgu?
- A ydyn ni'n darparu'r safonau gorau posibl o adeiladau o fewn ein cyllideb?
- A oes gan ddisgyblion ddigon o adnoddau dysgu priodol?

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â materion ariannol**

- A yw ein penderfyniadau gwariant a'n cynllunio ariannol bras wedi'u seilio ar flaenoriaethau ar gyfer gwario ar welliant dros gyfnod?
- A ydyn ni'n gwybod costau rhaglenni a gweithgareddau presennol, yn parhau i'w hadolygu ac yn gofyn a ydynt yn gost-effeithiol, er enghraifft, mewn perthynas â meintiau dosbarth nad ydynt yn hyfyw?
- A ydyn ni'n nodi blaenoriaethau a meysydd i'w datblygu, ac yn dyrannu adnoddau yn briodol ac yn unol â meini prawf clir i adlewyrchu ein hamcanion cytûn?
- A ydym wedi gwneud trefniadau cyllidebu systematig a chywir, gan gynnwys trefniadau priodol ar gyfer cronfeydd wrth gefn?
- A ydym wedi sicrhau cydbwysedd synhwyrol rhwng y cyfrifoldebau y mae llywodraethwyr yn ymgymryd â nhw a'r rhai sy'n cael eu dirprwyo i'r pennaeth a'r staff?

### **A ydyn ni'n darparu gwerth am arian? (FfAC 3.4.2)**

#### **Cwestiynau y dylem eu hystyried ynglŷn â gwerth am arian**

- A yw ein darpariaeth yn effeithiol o ran sicrhau deilliannau priodol ar gyfer ein disgyblion?
- A ydyn ni'n sicrhau cydbwysedd rhwng effeithiolrwydd ein darpariaeth yn erbyn costau, gan gynnwys costau staffio?
- A ydyn ni'n gwneud defnydd da o'r cyllid a dderbyniwn?

---

<sup>1</sup> Mae paragraff 80 yn cyfeirio at adran yn 'Dogfen Cyflogau ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol'. Mae'n rhoi manylion yr hyn fydd yn ofynnol i athrawon/cydlynwyr pwnc ei wneud: "80. Disgwylir i athrawon gyfrannu, ar lafar ac yn ysgrifenedig fel bo'n briodol, at ddatblygu'r cwricwlwm trwy rannu eu harbenigedd proffesiynol gyda chydweithwyr a chynghori ar arfer effeithiol. Nid yw hyn yn golygu y gellir disgwyl iddynt gymryd y cyfrifoldeb, ac atebolrwydd, am faes pwnc nac i reoli athrawon eraill heb dâl ychwanegol priodol. Dylai cyfrifoldebau o'r natur hon fod yn rhan o swydd sydd yn y grŵp arweinyddiaeth neu'n gysylltiedig â swydd sy'n denu CAD ar y sail a nodir ym mharagraff 21."

## 6 Hunanarfarnu ac arolygu

Dylai ysgolion ddefnyddio gwybodaeth o hunanarfarnu i fwydo i'w cynlluniau strategol. Mae adroddiad hunanarfarnu a ddiweddarir yn flynyddol yn cynnig cyfle i nodi cryfderau, dathlu a rhannu arfer dda. Dylai'r adroddiad hwn nodi meysydd ar gyfer gwella'r ysgol, a gellir blaenoriaethu hyn wrth gynllunio gwelliant. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd diweddariadau blynyddol i adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn seiliedig ar y FfAC.

Mae arolygiadau yn darparu arfarniad allanol pwysig o waith ysgolion dros gylch o chwe blynedd. Gall arolygu helpu ysgolion i ganolbwyntio ar yr hyn y mae angen ei wneud a sut i ysgogi newid sylweddol yn ansawdd a chysondeb y dysgu.

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw arfarniad yr ysgol o'i pherfformiad ei hun, gan ategu hynny â gwybodaeth berthnasol am berfformiad. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar waith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Bydd adroddiad hunanarfarnu yr ysgol yn pennu'r modd y bydd arolygwyr yn cymryd samplau o dystiolaeth i brofi arfarniad yr ysgol o'i gwaith. Ni ddylai'r adroddiad hunanarfarnu hwn fod yn un a ysgrifennwyd ar gyfer arolygiad yn unig. Yn hytrach, dylai ddatblygu o weithgareddau hunanarfarnu parhaus.

Dylai adroddiad hunanarfarnu da:

- fod yn arfarnol ac yn gryno;
- nodi diffygion yn ogystal â nodweddion da;
- nodi arfer ragorol ac arfer sy'n arwain y sector, pan fydd yn briodol;
- rhoi barnau clir ar bob dangosydd ansawdd yn y FfAC (er na fydd angen diweddarau'r rhain bob blwyddyn o angenrheidrwydd);
- sicrhau bod barnau'n deillio o dystiolaeth ac yn cynnwys croesyfeiriadau ati;
- darparu data ystadegol, a chynnig sylwadau arno, am ddeilliannau dros y blynyddoedd diwethaf;
- cyfeirio at asesiadau neu adolygiadau diweddar o ddarpariaeth;
- cysylltu'n glir â chynllun gwella a thargedau; a
- darparu croesyfeiriadau at y dystiolaeth sy'n cefnogi ei harfarniadau.

Gellir gweld y dogfennau canlynol ar wefan Estyn hefyd:

- trefniadau ar gyfer arolygiadau craidd mewn ysgolion cynradd;
- templed ar gyfer adroddiad hunanarfarnu yn seiliedig ar y FfAC; a
- pheynnau offer i gynorthwyo hunanarfarnu (Cynradd).

## 7 Pecynnau offer i gynorthwyo hunanarfarnu

Mae ystod o becynnau offer ar gael ar hyn o bryd i gynorthwyo hunanarfarnu. Cynhwysir ychydig o enghreifftiau yma, ond byddwch yn gwybod am rai eraill hefyd. Caiff y rhestr hon ei diweddarau o bryd i'w gilydd.

### Pecynnau offer hunanarfarnu Estyn

#### Arweiniad ategol i arolygwyr

Mae dogfennau arweiniad ategol Estyn wedi'u hysgrifennu ar gyfer arolygwyr, ac mae ysgolion hefyd wedi'u gweld yn ddefnyddiol ar gyfer arfarnu eu harfer eu hunain yn y meysydd a gaiff eu cwmpasu. Mae'r dogfennau arweiniad ategol yn ymdrin â thestunau fel:

- Medrau;
- Cyd-addoli;
- Yr iaith Gymraeg;
- Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
- Byw'n iach;
- Gwranddo ar Ddysgwyr;
- Dysgwyr mwy abl a dawnus; a
- Chydraddoldeb hil, hyrwyddo perthynas dda, a Saesneg fel iaith ychwanegol.

#### Adroddiadau cylch gwaith Estyn sy'n cynnwys rhestrau gwirio hunanarfarnu:

- Arfer orau mewn mathemateg ar gyfer disgyblion 3 i 7 oed (Estyn 2009);
- Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 5 i 7 oed (Estyn 2009);
- Gwella dysgu ac addysgu medrau darllen cynnar (Estyn 2007);
- Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (Estyn 2010);
- Chwarae a dysgu gweithredol: Pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen (Estyn 2009); a
- Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion (Estyn 2010).

#### Pecynnau offer hunanarfarnu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY)

Gwefan y FfEY yw'r cyfleuster canolog ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru i ddysgu mwy am y FfEY, ac mae'n eu galluogi i archwilio enghreifftiau o arfer dda ac ychwanegu enghreifftiau o'u gwaith da eu hunain. [www.sefcymru.org](http://www.sefcymru.org)

Mae'r wefan yn eich galluogi i fanteisio ar y Proffil Hunanarfarnu (PHA), sef pecyn offer arweinyddiaeth a rheolaeth a ddatblygwyd ar y cyd â phenaethiaid, athrawon, ymgynghorwyr awdurdod lleol ac Estyn, ac mae wedi'i roi ar brawf mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig. Gellir ei ddefnyddio fel cyfrwng datblygiadol i alluogi ysgolion i wneud a mesur cynnydd yn erbyn Cwestiwn Allweddol 3. Gall ymgynghorwyr gwella ysgolion ddefnyddio'r PHA hefyd pan fyddant yn cynorthwyo ysgolion.

## Pecynnau cymorth hunanarfarnu eraill

### **Cynllun Gweithredu Blas am Oes**

Mae'r cynllun gweithredu yn amlinellu'r cyfeiriad strategol a'r camau sy'n ofynnol i wella safonau maeth bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion yng Nghymru.

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091207appetiteforlifecy.pdf>

### **Safonau Ansawdd Sgiliau Sylfaenol**

Mae Marc Safon y Blynyddoedd Cynnar a'r Marc Safon Cynradd yn darparu fframweithiau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella lleoliad cyfan neu ysgol. Pan gwblheir y fframwaith hunanadolygu, gall arwain at achrediad drwy asesydd awdurdod lleol.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/basicsskillscymru/schoolsandproviders/qualitystandard/?skip=1&lang=cy&ts=1>

### **Ysgolion Bro: Gwneud i Bethau Ddigwydd – pecyn cymorth**

Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu cyngor ar gynllunio ysgol gyfan a datblygu Ysgolion Bro. Mae wedi'i seilio ar waith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae'n rhoi syniadau ac enghreifftiau o'r hyn y gall ysgolion bro ei gyflawni.

[http://www.continyou.org.uk/cymru\\_wales/adnodau/gwneud\\_pethau\\_ddigwydd\\_\\_\\_pecyn\\_cymorth](http://www.continyou.org.uk/cymru_wales/adnodau/gwneud_pethau_ddigwydd___pecyn_cymorth)

### **Cwricwlwm ar gyfer Pob Dysgwr**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad i athrawon/ymarferwyr dysgwyr sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau/ysgolion y brif ffrwd a lleoliadau/ysgolion arbennig. Mae'n cefnogi addysgu ac asesu yn erbyn y cwricwlwm ysgol 2008. Mae'n cynnwys rhestrau gwirio i helpu ysgolion arfarnu eu harfer.

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100426curriculumforlearnerscy.pdf>

### **Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau? Pecyn Hunanasesu Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r pecyn hwn yn datblygu ac yn hyrwyddo set o safonau ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r ddogfen wedi'i hardystio gan holl aelodau Is-Bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

<http://www.savethechildren.org.uk/assets/images/standards-pack.pdf>

### **Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDFE) – Strategaeth ar gyfer Gweithredu**

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/081204strategyactionupdatecy.pdf>

### **Symud Ymlaen...Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3**

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar nodweddion arfer dda a'r hyn y mae angen ei wneud i wneud gwelliannau pellach.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/movingon?skip=1&lang=cy>

### **Pecyn Hunanasesu Safonau Cyfranogiad**

Pecyn cymorth yw hwn i helpu darparwyr i fyfyrion ar eu harfer eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Mae'n rhoi syniadau am sut y gall darparwyr fodloni'r Safonau Cyfranogiad a pha dystiolaeth y gallent ei defnyddio i ddangos eu gwaith. Mae pecyn hunanasesu i

ddarparwyr ei gwblhau ar y cyd â phlant a phobl ifanc.

<http://www.participationworkerswales.org.uk/userfiles/file/Final%20Report%20July%200'09.pdf>

### **Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion Mwy Abl a Dawnus**

Mae'r arweiniad yn amlinellu rôl yr awdurdod lleol wrth gefnogi ysgolion i wella a datblygu darpariaeth ymhellach ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus, ac mae'n darparu cyfres o ddeg o safonau ansawdd i gynorthwyo â hunanarfarnu ysgol.

<http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/2333286/meetingthechallengecymdoc>

### **Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela Mewn Ysgolion**

Mae'r pecyn cymorth hwn yn adeiladu ar y Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion ac mae'n cynnwys safonau ac arweiniad ar gyfer cwnselwyr a gwasanaethau cwnsela yng Nghymru.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/wellbeing/schoolcounselling/counsellingtoolkit/?skip=1&lang=cy>

### **Cynghorau Ysgol yng Nghymru: Canllaw Arfer Orau**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rhai awgrymiadau syml ar yr hyn sy'n gwneud Cynghorau Ysgol neu Fforymau Ieuenctid effeithiol.

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090925schoolcouncilsbestpracticeguide/y.pdf>

### **Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau Deddf Plant 2004: Canllawiau Cynllunio**

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys arweiniad statudol o dan adrannau 25(8), 26(5) ad 27(4) Deddf Plant 2004.

[http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038293/1080190/CYPP\\_Guidance\\_FINAL\\_w\\_6-09.pdf](http://wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038293/1080190/CYPP_Guidance_FINAL_w_6-09.pdf)

### **Y Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion**

Mae'r Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion (PEY) yn cynnwys nifer o ddatganiadau lefel uchel ar ddatblygiad ysgolion, gan ddechrau gyda'r hyn y byddid yn disgwyl ei weld fan leiaf ym mhob ysgol yng Nghymru, i'r hyn sy'n debygol o gael ei weld yn yr ysgolion mwyaf effeithiol. Bwriedir y bydd ysgolion yn defnyddio'r datganiadau'n her gadarn iddynt fel rhan o'u proses hunanarfarnu. Mae'r PEY wedi'i gynllunio ochr yn ochr â FfAC Estyn er mwyn annog ysgolion i ofyn cwestiynau perthnasol i'w hunain ynghylch eu harfer bresennol.

Bellach, mae'r Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion (PEY) ar gael ar-lein i bob ysgol yng Nghymru ei ddefnyddio. Bydd cyfrineiriau unigryw i ysgolion yn cael eu dosbarthu drwy gyfrwng swyddogion rheoli gwybodaeth awdurdodau lleol. Mae'r PEY ar-lein wedi cael ei ddatblygu yn sgil ceisiadau gan ysgolion am greu fersiwn electronig, i hwyluso'r broses hunanarfarnu ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 'Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?'

[Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion – Cyflwyniad](#)

[Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion – rhestr gyfeirio gyflym, Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion – tudalen fewngofnodi ar-lein a gwefan y Proffil Effeithiolrwydd Ysgolion](#)

### **Arolwg Chwaraeon Ysgol**

Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn arolwg ar-lein o gyfranogiad mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol a'r ddarpariaeth ar eu cyfer, a gynhelir ar-lein bob yn ail flwyddyn dros dymor yr haf. Mae'n archwilio cyfranogiad disgyblion mewn chwaraeon ysgol a chymuned, eu cymhelliannau a'r rhwystrau rhag cyfranogi mewn chwaraeon, y ddarpariaeth a'r math o weithgareddau a gyflwynir fel rhan o'r cwricwlwm ac yn allgyrsiol, lles cyffredinol disgyblion, a'r graddau y mae cyfranogi mewn chwaraeon yn cyfrannu'n gadarnhaol at les disgyblion. Gwahoddir pob ysgol i fod yn rhan o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Bydd yr ysgolion hynny sy'n rhoi sampl gynrychioliadol o'u disgyblion, wedi'i rhagosod ar gyfer maint yr ysgol, hefyd yn derbyn adroddiad dwyieithog pwrpasol o'u data y gellir ei ddefnyddio i helpu dangos tystiolaeth o les. I gael mwy o wybodaeth ewch i:

<http://www.sportwales.org.uk/ymchwil-a-pholisi/ein-harolygon/arolwg-2011-ar-chwaraeon-ysgol.aspx?lang=cy&>

### **Meddwl yn Gadarnhaol: Iechyd a Lles Emosiynol Mewn Ysgolion a Lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar**

Mae'r arweiniad hwn yn canolbwyntio ar y rhan arweiniol y mae staff addysg yn ei chwarae i ddarparu gwasanaethau ataliol a gwella lles emosiynol plant.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/thinkingpositively/?lang=cy>

### **Pecynnau cymorth hunanarfarnu o wledydd eraill**

#### **Quality Management in Education 2 – Self-evaluation for Quality Improvement**

Mae'r wefan hon yn ddolen i Standards in Scotland's Schools Etc. Act 2000 sy'n edrych ar hunanarfarnu yng nghyd-destun yr awdurdod lleol. Mae'r pecyn offer yn darparu fframwaith ar gyfer cynllunio gwelliant, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu ac adrodd ar amcanion gwella mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol a mesurau perfformiad cysylltiedig.

<http://www.hmie.gov.uk/documents/publication/qme2seqi-04.html>

#### **Raising standards – a contextual guide to support success in literacy, numeracy and ESOL provision**

Bwriad y canllawiau hyn, a gynhyrchwyd gan yr Uned Strategaeth Sgiliau Bywyd, yw helpu ymarferwyr, arweinwyr a rheolwyr i wella ansawdd addysgu a rheoli darpariaeth llythrennedd, rhifedd ac iaith trwy ddefnyddio pum cwestiwn y Fframwaith Arolygu Cyffredin yn eu cyd-destun penodol.

<http://www.excellencegateway.org.uk/page.aspx?o=138202>

#### **Self-assessment Toolkits for Schools and Early Years**

Cynlluniwyd y pecynnau offer hyn ar gyfer ysgolion yn yr Alban er mwyn helpu ysgolion, sefydliadau blynyddoedd cynnar a'u staff addysgu i bennu pa mor dda y maent wedi ymgorffori egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu yn eu harfer.

<http://www.ltscotland.org.uk/assess/toolkit/schools/evidence.asp>

#### **The Child at the Centre – Self-evaluation in the Early Years**

Canllaw yw hwn ar gyfer staff sy'n gweithio yn y sector cyn-ysgol ac yn y cyfnodau cynnar mewn ysgol gynradd. Mae'r dangosyddion yn adlewyrchu'r dysgu gweithredol sy'n digwydd ar draws y blynyddoedd cynnar hyn. Mae'r fframwaith dangosyddion yn eich arwain yn y broses honno.

<http://www.hmie.gov.uk/documents/publication/catcseeey-02.html>



A self-evaluation  
manual for



primary  
schools 2010

**The purpose of Estyn is to inspect quality and standards in education and training in Wales. Estyn is responsible for inspecting:**

- ▲ nursery schools and settings that are maintained by, or receive funding from, local authorities;
- ▲ primary schools;
- ▲ secondary schools;
- ▲ special schools;
- ▲ pupil referral units;
- ▲ independent schools;
- ▲ further education;
- ▲ adult community learning;
- ▲ youth and community work training;
- ▲ local authority education services for children and young people;
- ▲ teacher education and training;
- ▲ work-based learning;
- ▲ careers companies; and
- ▲ offender learning.

Estyn also:

- ▲ provides advice on quality and standards in education and training in Wales to the Welsh Government and others; and
- ▲ makes public good practice based on inspection evidence.

Every possible care has been taken to ensure that the information in this document is accurate at the time of going to press. Any enquiries or comments regarding this document/publication should be addressed to:

Publication Section

Estyn

Anchor Court

Keen Road

Cardiff

